- ceisio nodi cyfleoedd ar gyfer gwella gwasanaethau, chwilio am werth am arian a hyrwyddo cystadleuaeth bob amser; a
- sbarduno'r economi leol a hyrwyddo'r gwaith o sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol drwy'r broses gaffael.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi Egwyddorion Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru, a gefnogir gan y Cyngor.  Mae Polisi Caffael y Cyngor yn nodi'r blaenoriaethau allweddol canlynol y dylid eu hadlewyrchu mewn rhaglenni buddsoddi:

- Cydweithio
- Busnesau Bach
- Buddion i'r Gymuned
- Moeseg
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg
- Cynaliadwyedd
- Effeithlonrwydd

## CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSCA) BRO MORGANNWG

Gan gydnabod pwysigrwydd Cymraeg 2050, a rôl addysg o ran cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn nodi cynllun deng mlynedd y Cyngor ar gyfer datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg. Mae'n adeiladu ar waith y CSCA blaenorol ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022 ac yn nodi cynllun gwaith sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei weledigaeth ddeng mlynedd.

Y weledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg fydd cynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031-32. Mae hyn yn cyfateb i greu tua 390 o leoedd blwyddyn un erbyn 2031-32 yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth presennol. Pennwyd y targed heriol hwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 (Rheoliadau 2019) a Rheoliadau CSCA (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (Rheoliadau 2020). Wrth bennu'r targed hwn, rhoddwyd sylw dyledus i Ddeddf

Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae'r targed hwn yn seiliedig ar gyfrannu at y targed hirdymor cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel y nodir yn Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (Cymraeg 2050).

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt) yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Cynyddodd Band A y rhaglen y capasiti ar gyfer addysg Gymraeg drwy greu dwy ysgol gynradd newydd, Ysgol Bro Morgannwg yn y Barri (darpariaeth Gynradd) ac Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr, ac ehangwyd ysgol bresennol Gwaun y Nant i wneud lle ar gyfer 210 o leoedd ysgol ychwanegol. Fel rhan o Fand B y rhaglen mae adeilad ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad newydd yn cael ei adeiladu ar ddatblygiad newydd Glannau'r Barri.  Bydd Ysgol Sant Baruc yn trosglwyddo i'r adeilad ysgol newydd yng Nglannau'r Barri ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan ddarparu 210 o leoedd cynradd ychwanegol. Mae'r Cyngor hefyd wedi buddsoddi mwy na £21m mewn cynyddu capasiti uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gynnig 299 o leoedd uwchradd ychwanegol, tra hefyd yn uwchraddio'r cyfleusterau presennol i ddarparu amgylcheddau dysgu o'r radd flaenaf.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol i hwyluso darpariaeth Gymraeg eisoes wedi'u nodi, megis y cynnig i ymestyn darpariaeth gynradd Gymraeg yn y Bont-faen. Byddai hyn yn destun ymgynghori ac ariannu.  Bydd cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i gefnogi CSCA'r Cyngor yn ystyriaeth allweddol fel rhan o ddatblygu Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer camau pellach o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg 2017-2021 yn disgrifio cyfarwyddyd ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc addysgol dros gyfnod o bedair blynedd, yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg ac Addysg yng Nghymru. Mae'r cyngor yn derbyn, er mwyn cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bod angen buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth addysg er mwyn creu a hwyluso'r galw am addysg Gymraeg.  Bydd cam deng mlynedd nesaf Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Bro Morgannwg yn rhan annatod o strategaeth cyfrwng Cymraeg y Cyngor. Mae'r CSCA presennol yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i ehangu lleoedd ysgol cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd angen ymgorffori hyn ym mhenderfyniadau rhaglenni datblygu'r dyfodol.

Wrth gyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i greu galw, strategaeth y Cyngor ar gyfer Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru fydd parhau i ganfod cyfleoedd i gynyddu addysg Gymraeg ar draws pob sector, gan greu galw ac adlewyrchu datblygiadau tai newydd sydd wedi'u cynllunio dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r CSCA yn cyd-fynd yn agos hefyd â Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Ddrafft y Cyngor ar gyfer 2022-2027 ac ni all y naill strategaeth na'r llall fodoli ar wahân. Maen nhw'n rhan o fframwaith polisi ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru.  Mae'r strategaeth yn ddogfen lefel uchel ac mae wedi'i hailstrwythuro i gyd-fynd â'r tair thema yn strategaeth "Cymraeg 2050:  Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" Llywodraeth Cymru. Y rhain yw:

- Thema 1 - Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3 - Creu amodau ffafriol

## CYNLLUN ARIANNU TEG BRO MORGANNWG AR GYFER ARIANNU YSGOLION

Mae'r cynllun yn nodi'r berthynas ariannol rhwng y Cyngor a'r ysgolion a gynhelir y mae'n eu hariannu. Mae'n cynnwys gofynion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol a materion cysylltiedig, sy'n rhwymo'r Cyngor a'r ysgolion. Pwrpas y cynllun yw:

- Gwella Safonau – helpu ysgolion ac Awdurdodau Lleol i ganlyn prif flaenoriaeth pawb sydd ynghlwm wrth y gwasanaeth addysg – codi safonau.
- Hunan-reoli – galluogi ysgolion i ddatblygu eu gallu i reoli eu hunain.
- Atebolrwydd – drwy gyfuno cyllidebau â chyfrifoldebau fel y gall ysgolion ac Awdurdodau Lleol gael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad o ran gwario arian cyhoeddus.
- Tryloywder – gwneud penderfyniadau ynghylch cyllido ysgolion yn glir ac yn ddealladwy.
- Cyfle – i bob ysgol ond bygythiad i ddim un. Ni ddylid gorfodi ysgolion cynradd yn benodol i ysgwyddo cyfrifoldebau na allant ddelio â hwy.
- Tegwch - sicrhau bod ysgolion o'r tri chategori yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, h.y. ysgolion cymunedol, gwirfoddol a sylfaenol.
- Gwerth am Arian – drwy helpu ysgolion ac Awdurdodau Lleol i gael gwerth am arian a galluogi partïon eraill â diddordeb i asesu i ba raddau y mae hyn yn digwydd.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol o roi disgresiwn i gyrff llywodraethu a'r Penaethiaid reoli adnoddau yn yr ysgol. Bwriad y cynllun yw galluogi pob corff llywodraethu, ar y cyd â Phennaeth a staff yr ysgol, i reoli sut y mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio er budd holl ddisgyblion yr ysgol. Gall y corff llywodraethu wario ei gyllideb hefyd ar unrhyw ddibenion ychwanegol yn unol â rheoliadau a wneid dan adran 50 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (DSFfY).

Gall y Cyngor atal hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig os yw'n torri darpariaethau'r cynllun ariannu ysgolion yn sylweddol neu'n barhaus, neu os nad yw'r cynllun wedi cael ei reoli'n foddhaol.  Mae hawl i apelio i Lywodraeth Cymru. Gellir atal hawl ysgol i gynllun cyllideb ddirprwyedig am resymau eraill hefyd dan adran 17 DSFfY.

Dan y ddeddfwriaeth hon, mae'r Cyngor yn pennu cyfanswm y gyllideb addysg, sef y swm a ddyrannwyd gan y Cyngor i fodloni'r holl wariant sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.  Y Gyllideb Ysgolion Unigol (CYU) yw'r swm sy'n weddill ar ôl tynnu unrhyw wariant arfaethedig y Cyngor allan o Gyllideb Ysgolion, y dylid ei dynnu yn unol â rheoliadau.  Y CYU yw'r swm a ddyrannir i ysgolion.

Bydd y cynllun hwn yn berthnasol i ysgolion cymunedol, gwirfoddol, sylfaenol ac ysgolion arbennig cymunedol hefyd. Bydd unrhyw ysgol newydd a gynhelir yn cael ei chynnwys dan y cynllun drwy rinwedd adran 48 DSFfY.

## STRATEGAETH HYGYRCHEDD 2021-24

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn ei ysgolion a gynhelir a'i leoliadau addysgol yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl. I gefnogi hyn, mae'r cyngor yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o arolygon cyflwr o bob ysgol er mwyn sicrhau bod yr holl bryderon hygyrchedd yn cael eu nodi'n glir.

Nod cyffredinol y strategaeth yw sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau ac yn eu galluogi i gyflawni canlyniadau uchelgeisiol.

### ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2022

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiad Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, a Chanllawiau Statudol diweddar Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 yn gosod Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn bob pum mlynedd.

Mae'r Asesiad yn gam angenrheidiol tuag at sicrhau darpariaeth gofal plant 'ddigonol' yn y Fro.

Ei nod yw nodi bylchau ar thema gofal plant (neu fylchau a allai ymddangos) a gwneud argymhellion a fydd yn diwallu anghenion rhieni a gofalwyr sy'n byw yn yr ardal.

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn ystyriaeth bwysig ar gyfer darpariaeth feithrin a dylid ei ddefnyddio i helpu i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth yn yr Awdurdod.

## 2.3. CANLLAWIAU

Mae dogfennau canllaw cenedlaethol wedi cael eu llunio neu eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru i helpu Awdurdodau Lleol i fodloni gofynion. Mae'r canllawiau perthnasol ar gyfer buddsoddiadau addysg wedi'u hamlinellu isod:

### CANLLAW ACHOS BUSNES CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY 2022

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac esgobaethau.

Datblygodd Llywodraeth Cymru y canllawiau hyn i ddangos gofynion achos busnes penodol y Rhaglen.

Roedd ton gyntaf buddsoddiad (Band A) y Rhaglen o dan y faner Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif ac yn cynrychioli buddsoddiad o £1.4 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd a ddaeth i ben yn 2018/19. Mae pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol wedi elwa o'r rhaglen seilwaith fawr hon, sydd wedi cefnogi ailadeiladu ac adnewyddu dros 150 o ysgolion a cholegau.

Dechreuodd yr ail don (Band B) ym mis Ebrill 2019 ac fe'i hymestynnwyd i gynnwys colegau addysg bellach. Cafodd ei hailenwi'n Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Ym mis Ionawr 2022, ailenwyd y Rhaglen yn Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd y Rhaglen hon yn gweld buddsoddiad pellach o £2.3 biliwn mewn seilwaith ysgolion a cholegau gan ddefnyddio cyfalaf cyhoeddus a refeniw. Er mwyn cefnogi cyflawniad a fforddiadwyedd rhaglenni unigol partneriaid cyflenwi, amlinellir cyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau ysgolion isod:

- Ysgolion Cymunedol – 65%

- Ysgolion AAA ac ADY – 75%
- Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir – 85%

Bydd trawsnewid addysgol yn parhau i fod yn ganlyniad hanfodol i'n buddsoddiad yn y Rhaglen. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn hynod bwysig ein bod yn mynd i'r afael â chyflwr ein hadeiladau ysgol a choleg. Felly, y ddwy brif flaenoriaeth Band B yw:

Amcan Buddsoddi Un - darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn ateb y galw presennol am leoedd a'r galw i'r dyfodol erbyn 2024.

- Mae'r ôl-groniad o gostau cynnal a chadw ar gyfer yr ysgolion a'r colegau a ddewiswyd ar gyfer Band B wedi'i leihau o leiaf 50% (yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd tua 50% o'r prosiectau yn y Rhaglen yn cymryd lle asedau presennol)
- Dim adeiladau categori D yn yr ystâd
- 25% o adeiladau cyflwr Categori C yn cael eu gwella i Gategori A neu B
- Darparu'r nifer cywir o leoedd ar gyfer cyflawni:
    - Addysg cyfrwng Cymraeg
    - Addysg cyfrwng Saesneg
- Mynd i'r afael â materion digonolrwydd lle bo'n berthnasol.
- Gweithio tuag at Adeiladau Sector Cyhoeddus Sero Net yn unol ag Ymrwymiadau Lleihau Carbon Llywodraeth Cymru.

Amcan Buddsoddi Dau – gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith ac adnoddau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau erbyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys hyblygrwydd ein hasedau er mwyn sicrhau'r gofod a'r cyfleusterau mwyaf a gorau posibl i'n rhanddeiliaid.

- Ein dyhead yw i'r holl gyfleusterau sy'n derbyn buddsoddiad ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael at ddefnydd cymunedol gan gynnwys (ond nid yn unig) fynediad at wasanaethau a rhaglenni cymorth sy'n hyrwyddo gwytnwch cymunedol ac yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi os yw'r galw lleol yn bodoli.
- Mae gan 10% o ysgolion / colegau sy'n derbyn cyllid gan y Rhaglen wasanaethau cyhoeddus wedi'u cyd-leoli ar y safle os yw'r galw lleol yn bodoli.

Yn benodol:

- A yw'r ysgolion neu'r colegau sydd wedi'u heffeithio mewn cyflwr gwael?
- A yw'r cynlluniau'n cyfrannu at ddarpariaeth effeithlon ddigonol?
- A yw'r cynlluniau'n arwain at fwy o ddefnydd gan y gymuned?

Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw sicrhau bod ein seilwaith addysgol o safon dderbyniol. Lle mae anghenion addysgol a nodwyd, bydd hyn yn cael ei godi fel rhan o'r buddsoddiad a'r gwelliannau angenrheidiol a wneir fel amod cyllid.

Ym mhob achos, bydd prosiectau unigol o fewn y rhaglen yn cael eu hasesu ar:

- Raddfa’r cyfatebiad i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Gwerth am Arian
- Cyflawnadwyedd (fforddiadwy ac amserol)
- Fforddiadwyedd.

Mae pob Achos Busnes a gyflwynir wedi’i danategu gan Raglen Amlinellol Strategol (RhAS), sy'n rhoi golwg gyffredinol ar strategaethau awdurdodau lleol / sefydliadau addysg bellach unigol. Yna gellir cymeradwyo prosiectau unigol yn amodol ar dderbyn Achos Busnes boddhaol.

Ar gyfer prosiectau dros £5 miliwn, cyflwynir Achosion Busnes mewn tri cham:

- Achos Amlinellol Strategol (AAS)
- Achos Busnes Amlinellol (ABA)
- Achos Busnes Llawn (ABLl)

Ar gyfer prosiectau llai, o lai na £5 miliwn mewn gwerth, caiff AAS, ABA ac ABLl eu disodli gan un ddogfen, sef yr Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB).

Bydd pob Achos Busnes yn seiliedig ar y pum maes allweddol sy'n sail i'r Broses Achos Busnes Gwell (Model Busnes Pum Achos).

| **Meysydd Allweddol** | Cwestiynau? |
|---|---|
| **Achos Strategol** | Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau'r llywodraeth/lleol?<br><br>Beth yw'r achos dros newid ac a oes amcanion buddsoddi CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) clir? |
| **Achos Economaidd** | Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion buddsoddi a pha un sy’n cynnig y gwerth gorau am arian? |

| **Meysydd Allweddol** | Cwestiynau? |
| --- | --- |
| **Achos Masnachol** | Sut y gellir gwneud cytundeb gydag asiantau darparu?<br><br>Beth yw'r strategaeth gaffael a'r trefniadau masnachol ar gyfer y buddsoddiad arfaethedig?<br><br>Beth yw'r cynllun Buddion Cymunedol?<br><br>A yw'r polisi Cyfrifon Banc Prosiect wedi cael ei ystyried?  A fydd Cyfrif Banc Prosiect yn cael ei ddefnyddio neu a oes rhesymau cymhellol dros beidio â defnyddio un wedi'u nodi? |
| **Achos Ariannol** | Ydy'r cynnig yn fforddiadwy?<br><br>Beth yw'r ffynonellau arian cyfatebol a beth yw'r gyfrifeg |
| **Achos Rheoli** | Sut y caiff y cynllun a'r buddion oes gyfan eu rheoli'n llwyddiannus? |

Mae'r pum maes hyn yn cael eu harchwilio ar wahanol gamau o'r broses achos busnes.

- Bydd yr AAS yn canolbwyntio ar y cyfiawnhad strategol (Achos Strategol), amcanion buddsoddi ar gyfer y prosiect (Achos Strategol), y rhesymeg y tu ôl i leihau'r rhestr hir i restr fer o opsiynau ac, ar gyfer prosiectau a ariennir gan refeniw, yr 'opsiwn a ffefrir' (Achos Economaidd), cost amlinellol y prosiect (Achos Ariannol) a'r strwythur rheoli arfaethedig (Achos Rheoli).
- Bydd yr ABA yn canolbwyntio'n bennaf ar y strategaeth fasnachol (Achos Masnachol), y dadansoddiad manwl o'r arfarniad opsiynau a'r buddion. Ar gyfer prosiectau a ariennir gan refeniw byddai hyn wedi'i gwblhau ar AAS (Achos Economaidd), manylion cyllid cyfatebol a phroffil gwariant (Achos Ariannol). Dim ond os yw wedi newid ers cytuno i'r AAS y bydd yr Achos Strategol yn cael ei ailystyried.

- Bydd yr ABLl ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyfalaf yn canolbwyntio ar y costau tendro yn unig oni bai bod unrhyw beth wedi newid ers cytuno i'r ABA. Yn yr un modd, ar gyfer prosiectau a ariennir gan refeniw, bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Cap Fforddiadwyedd a chyflwyno'r Cytundeb Prosiect ffurf safonol (gan gynnwys Gofynion Adeiladu a Manyleb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod).
- Ar gyfer prosiectau llai, mae'r ACB yn cwmpasu'r holl feysydd hyn mewn un iteriad.

Mae'n bwysig bod unrhyw gostau annormal tebygol sylweddol yn cael eu nodi ar y cam AAS lle bo hynny'n bosibl er mwyn i hyn beidio ag ychwanegu unrhyw oedi ychwanegol i'r gymeradwyaeth o'ch achosion busnes. Os yw'r safle'n rhywbeth ar wahân i dir gwyrdd a fflat, gwerthfawrogir y gallai fod costau annormal eraill a all ddenu cyllid Llywodraeth Cymru.

Gallai costau annormal cymwys gynnwys:

- gwaredu asbestos
- glanhau tir halogedig
- ymdrin â materion mwyngloddio hanesyddol
- seilbyst neu ddatrysiad sylfeini arall sy'n ofynnol oherwydd cyflwr y ddaear
- lefelu safle oherwydd topograffi

Dylid defnyddio'r Safon Cost a Maint ar gyfer rhestr lawn o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yng nghostau'r prosiect a'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn gostau annormal. Dylai awdurdodau lleol dalu holl gostau'r prosiect i alluogi Llywodraeth Cymru i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael cyllid Llywodraeth Cymru ai peidio. Bydd angen darparu tystiolaeth gadarn pe bai arwynebeddau a chostau'r prosiect yn fwy na'r fformiwlâu cymhwysol hyn, i'w hystyried yn y Panel Buddsoddi Addysg.

Yn ogystal â chyllid cyfalaf, mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau y bydd ffrwd cyllid refeniw a fydd yn galluogi buddsoddiad o tua £500 miliwn, gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bwriad y buddsoddiad refeniw hwn yw cynyddu faint o adnoddau sydd gennym i gefnogi seilwaith ysgolion a cholegau.

## CYLCHLYTHYR MESUR CAPASITI YSGOLION YNG NGHYMRU

Capasiti ysgol yw nifer y disgyblion y mae ganddi le iddynt. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r dull o asesu capasiti ysgolion cynradd ac uwchradd a phennu niferoedd derbyn priodol o'r capasiti. Gellir defnyddio'r dull hwn:

- i gynllunio lleoedd ysgol
- i adrodd ar gapasiti dros ben
- i bennu niferoedd mynediad ysgolion.

Mae'r dull asesu capasiti'n berthnasol i bob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol sefydledig yng Nghymru. Nid yw'r dull yn berthnasol i ysgolion meithrin neu ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion.

Mae awdurdodau lleol yn mesur yr holl ofodau y gellir eu defnyddio ar safle ysgol - rhai addysgu ac anaddysgu. Defnyddir y mesuriadau i greu 'ôl troed' o'r holl ofod y gellir ei ddefnyddio sydd ar gael. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r mesuriadau hyn i asesu capasiti'r holl ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn eu hawdurdodau, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sylfaen.

Nid yw ysgolion yn gyfrifol am fesur arwynebedd neu gapasiti, ond dylid ymgynghori â nhw pan fydd y ffurflen gapasiti'n cael ei chwblhau. Maent yn debygol o fynegi barn, er enghraifft wrth bennu math a defnydd ystafell. Rhaid i ysgolion hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw newid ffisegol i'r adeiladau neu i ddefnydd ystafelloedd a allai newid y mesuriadau arwynebedd neu gapasiti.

## BWLETINAU ADEILADU

Prif bwrpas y Bwletinau Adeiladu yw nodi canllawiau arwynebedd syml, realistig, anstatudol ar gyfer ysgolion. Yn y bôn, mae'r ddogfen yn rhoi'r arwynebeddau lleiaf posibl ar gyfer pob math o ofod mewn ysgolion cynradd.

Mae hefyd yn cynnig ystodau arwynebedd uwchlaw'r isafswm hwn i ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion wrth ddylunio eu hadeiladau a'r ffordd y maent yn eu defnyddio. Y Bwletinau Adeiladu allweddol ar gyfer datblygiadau ysgolion yw:

- 98 – Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Uwchradd
- 99 - Atodlenni Arwynebedd Cynradd - Darllen ar y cyd â Bb99 ‘Fframwaith Briffio’ 2004
- 104: Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Arbennig a Darpariaeth Amgen

Mae'r bwletinau canllaw yn cynnwys cyfrifiadau arwynebedd mewnol ac allanol i ddarparu arwynebeddau lleiaf i brosiectau ysgolion eu cyflawni. Argymhellir hefyd fod 'clustog' yn cael ei defnyddio yn y cyfrifiadau lle i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau unigol pob ysgol. Disgwylir i bob ysgol brif ffrwd fod angen o leiaf gyfanswm yr arwynebedd net a argymhellir, sy'n cynnwys y 'glustog'. Efallai y bydd gan rai ysgolion arwynebedd ategol pellach, a ariennir fel arfer o ffynonellau ychwanegol, yn ychwanegol at hyn, er enghraifft ar gyfer neuadd chwaraeon fwy o faint. Yn ogystal, mae'r bwletinau'n tynnu sylw at bwysigrwydd creu briff da ar gyfer prosiectau adeiladu ysgolion. Nod y canllaw yw dwyn i sylw awdurdodau lleol (ALlau), a phawb sy'n ymwneud â chamau cynnar prosiectau ysgolion, y pwyntiau cyffredinol y mae angen eu hystyried. Mae'n crynhoi'r pwyntiau allweddol, gyda chyfeiriadau at wybodaeth bellach mewn canllawiau eraill.

# 3. STRATEGAETH FUDDSODDI

Mae'r strategaeth fuddsoddi yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- Rheoli'n briodol y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol ledled Bro Morgannwg i gyflawni dyletswydd statudol yr awdurdod lleol i ddarparu digon o leoedd mewn ysgolion.

- Gwella’r rheolaeth o fuddsoddiad cyfalaf addysg mewn adeiladau ysgolion a chysylltu’n agos ag Awdurdodau Esgobaethol sydd â chyfrifoldeb am fuddsoddiad cyfalaf mewn Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir.
- Ceisio llunio cynigion i newid capasiti ysgolion ac agor ysgolion newydd er mwyn diwallu anghenion newidiol cymunedau ar draws y Cyngor.
- Parhau i gysylltu ag adrannau eraill y Cyngor, gan gynnwys yr adran gynllunio, ar ddatblygiadau arfaethedig a newydd.
- Gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor yn ogystal â'n hysgolion i wneud, lle y bo modd, newidiadau angenrheidiol i adeiladau a safleoedd ysgolion ar gyfer disgyblion y mae angen trefniadau mynediad arnynt mewn lleoliadau addysgol lle bernir ei bod y tu allan i gyfrifoldeb yr ysgol i ddarparu 'addasiadau rhesymol'.

Mae'r strategaeth yn ymwneud â'r ystâd addysg sy'n cynnwys 44 o ysgolion cynradd, 1 ysgol Pob Oed, 7 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig yn ardal Bro Morgannwg. Mae'r strategaeth fuddsoddi yn ddull seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir i gyfeirio cyllid buddsoddi sydd ar gael i ysgolion.  Mae 3 phrif faes sy'n cyfeirio buddsoddiad ar gyfer addysg, gan gynnwys:

- Trefniadaeth ysgolion a'r galw am leoedd ysgol.
- Cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd adeiladau ysgol; a
- Mynd i'r afael â datgarboneiddio asedau ysgol a gwella gwerth ecolegol.

Mae'r meysydd hyn yn cael eu cyfarwyddo gan ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a lleol, a chanllawiau.  Mae'r ddogfen hon yn ehangu ar yr ystyriaethau sy'n gysylltiedig â phob maes o dan Adran 4 isod.

Mae angen i'r Strategaeth Fuddsoddi gydymffurfio â phedwar Amcan Corfforaethol y Cyngor sef:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

## 3.1. CAMAU BLAENORIAETH

Mae'r camau blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi o dan bob Amcan Corfforaethol i ddangos sut y bydd y Strategaeth Fuddsoddi yn cyflawni nodau ehangach y Cyngor:

### GWEITHIO GYDA A THROS EIN CYMUNEDAU

- Cynnwys cymunedau lleol wrth wneud penderfyniadau ar gyfleoedd buddsoddi trwy arferion ymgynghori gwell, sy'n anelu at fynd y tu hwnt i ofynion statudol.
- Blaenoriaethu ymgysylltu cynnar â chymunedau lleol a defnyddwyr terfynol ar gyfleoedd buddsoddi trwy grwpiau rhanddeiliaid a digwyddiadau ymgysylltu.
- Defnyddio arferion ymgysylltu digidol a wyneb-yn-wyneb i sicrhau bod ystod eang o bobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau buddsoddi sy'n ymwneud â'u hardal leol.

### CEFNOGI DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

- Adolygu asedau presennol a rhesymoli asedau nad oes eu hangen fel rhan o'r Adran. Nodi ble y gellir trosglwyddo asedau neu eu gwerthu i leihau costau refeniw neu ddarparu derbyniadau cyfalaf ar gyfer ailfuddsoddiadau yn y rhaglen datblygu addysg.
- Rhoi blaenoriaeth i fusnesau lleol i gyflawni prosiectau buddsoddi. Sicrhau bod GwerthwchiGymru yn cael ei ddefnyddio ym maes caffael ar gyfer prosiectau a helpu i ddatblygu cronfa ddata leol o BBaChau o fewn ardal yr Awdurdod.
- Sicrhau bod yr ystâd addysg yn cael ei chynnal i safon weithredol er mwyn caniatáu i'r ddarpariaeth barhau drwy'r Awdurdod.
- Nodi BBaChau yn yr ardal leol i'w defnyddio fel isgontractwyr ar brosiectau buddsoddi mwy i helpu i adeiladu busnesau lleol.
- Sicrhau bod cyfleoedd buddsoddi yn mynd i'r afael â'r galw am leoedd disgyblion ac yn darparu digon o leoedd ysgol amrywiol o ansawdd i ddiwallu anghenion dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol.
- Parhau i gyflwyno'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i ddarparu amgylcheddau dysgu modern ledled Bro Morgannwg.
- Safoni niferoedd derbyn ym mhob ysgol i niferoedd wedi'u talgrynnu.
- Darparu addysg Pob Oed i blant 3-11 oed ym mhob ysgol gynradd ledled Bro Morgannwg i gynnwys darpariaeth feithrin.
- Nodi cyfleoedd buddsoddi i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn yr Awdurdod.
- Cynhyrchu Papur Amcanestyniadau Addysg i amlinellu'r boblogaeth ddisgyblion a ragwelir dros gyfnod o 15 mlynedd i gefnogi penderfyniadau buddsoddi a chyfeirio cyllid i ardaloedd galw mawr / capasiti isel.
- Parhau i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau bod y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio yn darparu digon o gyfraniadau ariannol addysg i fynd i'r afael â'r effeithiau tebygol y mae datblygiadau yn eu cael ar seilwaith addysg o fewn yr Awdurdod.

### CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

- Darparu mynediad cymunedol ar draws yr ystâd addysg lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnwys mynediad i gyfleusterau awyr agored a dan do.
- Cefnogi cymunedau lleol drwy'r argyfwng ynni drwy ddarparu mannau cynnes mewn adeiladau ysgol sy'n hygyrch i'r gymuned.
- Ceisio agor y gwasanaethau sydd ar gael mewn adeiladau ysgol, gan gynnwys Wi-Fi sy'n hygyrch i'r gymuned a gwasanaethau digidol eraill.
- Adolygu'r gofynion budd cymunedol presennol a ddefnyddir yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac addasu'r gofynion sydd i'w defnyddio ar bob penderfyniad buddsoddi.
- Nodi partneriaid gwerth cymdeithasol lleol i ddarparu ystod eang o fuddion cymunedol sy'n gysylltiedig â phrosiectau buddsoddi.
- Hyrwyddo cydweithio â phartneriaid i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a dysgu cymunedol drwy'r rhaglen fuddsoddi i gynyddu a gwella lles dinasyddion.

### PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

- Hyrwyddo newid ymddygiad i leihau allyriadau carbon a gynhyrchir o'r ystâd addysg.
- Gweithredu strategaeth adnewyddu asedau i wella datgarboneiddio mewn adeiladau ysgol i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau costau ynni.
- Cefnogi llwybrau teithio llesol fel rhan o fuddsoddiadau, gan nodi cyfleoedd ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol i leihau'r ddibyniaeth ar geir ar gyfer staff a defnyddwyr adeiladau ysgol.
- Gwella'r gwerth ecolegol ar asedau addysg presennol a nodi cyfleoedd i wella bioamrywiaeth fel rhan o brosiectau buddsoddi.

## 3.2. MONITRO A CHYFLAWNI

Bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn y camau blaenoriaeth yn y strategaeth hon yn flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys manylion am y cynnydd a wnaed ac unrhyw heriau sydd wedi codi wrth fynd i'r afael â'r camau. Yn ogystal, bydd y camau gweithredu'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion y Cyngor, lle bydd camau newydd priodol yn cael eu hychwanegu wrth adolygu'r Strategaeth yn y dyfodol.

Bydd diweddariadau ar gynnydd y Strategaeth yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor i gofnodi cynnydd y Strategaeth yn gyhoeddus.

# 4. YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL

## 4.1. TREFNIADAETH YSGOLION A GALW DISGYBLION

Mae trefniadaeth ysgolion a galw disgyblion yn ystyriaeth bwysig i lywio penderfyniadau buddsoddi. Nod y Cyngor yw sicrhau bod cyllid a arweinir gan ddisgyblion yn cynrychioli dosbarthiad teg o arian ledled yr Awdurdod. Dylai newidiadau i drefniadaeth ysgolion anelu at wella canlyniadau addysgol presennol disgyblion, darpariaeth Gymraeg, darpariaeth ADY, cyllid, trefniadau staffio a thrafnidiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn dilyn model ysgol Pob Oed ar lefel meithrin a chynradd. Ystyrir bod gan ysgolion 3-11 sawl mantais, gan gynnwys un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cam a all gefnogi pontio ar draws cyfnodau addysg. Gall un ysgol 3-11 hefyd arwain at well cyfathrebu rhwng rhieni a staff gydag un pwynt cyswllt trwy bob cam o addysg gynradd.

Yn ogystal, nod y Cyngor yw safoni derbyniadau ledled ysgolion Bro Morgannwg i symleiddio trefniadau derbyn.

Mae galw disgyblion yn ffactor allweddol mewn cynigion trefniadaeth ysgolion a chyfeirio buddsoddiad addysg. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu digon o leoedd i ddisgyblion yn ei ardal Awdurdod. Nod y Cyngor yw sicrhau cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd mewn ysgolion yn y Fro i sicrhau bod ysgolion o'r maint cywir ac yn y lle cywir i wasanaethu eu cymunedau ac i ddiwallu anghenion pob disgybl ym Mro Morgannwg. O ganlyniad, bydd angen cyfeirio buddsoddiad at ardaloedd lle mae angen lleoedd ysgol newydd i ateb galw sy'n codi lle nad oes gan ysgolion presennol gapasiti neu lle byddant yn cyrraedd capasiti erbyn yr amser y rhagwelir y bydd poblogaethau disgyblion yn cynyddu.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r ffactorau allweddol a ystyrir o dan y maes hwn:

### YMGYNGHORIADAU

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw at God Statudol Trefniadaeth Ysgolion Tachwedd 2018 wrth gynnal ymgynghoriadau. Mae'r Cod yn berthnasol i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Nid yw hyn yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol (h.y. awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn achos ysgolion ffydd a gynorthwyir neu a gynhelir) gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod. Mae'n cynnwys canllawiau statudol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol roi sylw iddynt ac yn nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylid eu hystyried gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion. Lle rhoddir canllaw gan y Cod, dywedir y dylai'r corff perthnasol ddilyn y canllaw hwn oni bai ei fod yn gallu dangos bod modd cyfiawnhau peidio â gwneud hynny.

### METHODOLEG GALW DISGYBLION

Mae gan yr Awdurdod Lleol (ALl) gyfrifoldeb i ddarparu darpariaeth addysg ddigonol ym Mro Morgannwg. Fel rhan o'r rôl hon, mae'n bwysig deall yr angen posibl am leoedd disgyblion yn y dyfodol er mwyn caniatáu i'r ALl gynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth addysg newydd a chanolbwyntio cyllid i wella'r ddarpariaeth ysgolion.

Mae methodoleg amcanestyniadau disgyblion y Cyngor yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Archwilio ac yn seiliedig ar gymhwyso cymarebau ysgolion dalgylch a chyfraddau goroesi carfannau (y berthynas rhwng nifer y disgyblion mewn un garfan mewn un flwyddyn ysgol, a'r un garfan yn y flwyddyn ysgol nesaf). Mae amcanestyniadau disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n ystyried data cyfrifiad ysgolion cyfredol a hanesyddol (CYBLD), cyfraddau genedigaethau (data cofrestru meddygon teulu'r GIG), datblygiadau tai a gynllunnir a symudiadau traws-ddalgylch.

Mae methodoleg yn seiliedig ar gymhwyso dau ffactor:

- Cymarebau ysgolion dalgylch i amcangyfrif disgyblion i'r flwyddyn fynediad arferol, derbyn ar gyfer ysgolion cynradd a blwyddyn 7 ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r nifer a ragamcenir yn seiliedig ar gymarebau genedigaethau dalgylch a thueddiadau data ysgolion hanesyddol.
- Cymarebau goroesi carfan ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill wrth i'r garfan gychwynnol symud drwy'r ysgol (y berthynas rhwng nifer y disgyblion mewn un garfan mewn un flwyddyn ysgol, a'r un garfan yn y flwyddyn ysgol nesaf).

Bydd y Cyngor hefyd yn nodi tueddiadau o fewn amcanestyniadau, dadansoddiad o ddata dewisiadau ysgolion a gwybodaeth gyd-destunol arall.

O ran data amcanestyniadau, mae'r Cyngor yn defnyddio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (ACBau) a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar Lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) a'r prif amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf a gynhyrchwyd gan SYG ar gyfer ardal yr Awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i amcangyfrif twf y boblogaeth oedran addysg dros gyfnod o 25 mlynedd.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am dderbyniadau disgyblion sy'n dod i'r amlwg drwy ddatblygiadau preswyl cynlluniedig. Mae hyn yn seiliedig ar ddatblygiadau a ddyrannwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor a hap-ddatblygiadau sy'n digwydd o fewn dalgylch ysgol. Mae'r cyfrifiadau ar gyfer derbyniadau disgyblion wedi'u cynnwys yn CCA Rhwymedigaethau Cynllunio'r Cyngor ac fe'u dangosir isod:

| Math o Ysgol | Nifer y lleoedd ysgol fesul annedd |
|---|---|
| Cyn ysgol | 0.1 |
| Ysgol Gynradd | 0.278 |
| Ysgol Uwchradd (11-16 oed) | 0.208 |
| Ysgol Uwchradd (16+ oed) | 0.04 |

Roedd hyn yn seiliedig ar wybodaeth cyfrifiad 2011 a bydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cyfrifiad diweddaraf mewn cydweithrediad ag Adran Gynllunio'r Cyngor.

Er mwyn cefnogi'r strategaeth fuddsoddi hirdymor, bydd papur amcanestyniad addysg yn cael ei gynhyrchu i gwmpasu cyfnod o 15 mlynedd. Bydd hyn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ddarpariaeth ysgolion ar draws yr Awdurdod wedi'i rannu ar draws pedair prif ardal Y Barri, Y Bont-faen, Llanilltud a Phenarth. Bydd y ddogfen yn cynnwys amcanestyniadau disgyblion, data ysgolion a disgyblion, data dewisiadau rhieni, a derbyniadau disgyblion o ddatblygiadau tai. Bydd y ddogfen hon yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau buddsoddi drwy nodi lle mae angen lleoedd ychwanegol a llywio cynlluniau i fynd i'r afael â gorgyflenwad o leoedd mewn ardaloedd sydd â niferoedd gostyngol ar y gofrestr. Bydd y ddogfen yn cael ei monitro'n flynyddol i gynnwys data poblogaeth newydd o wahanol ffynonellau mewnol ac allanol.

## ADDYSG GYMRAEG

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn y Fro yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, gan sicrhau bod manteision dwyieithrwydd yn cael eu hyrwyddo i bob rhiant a bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg. Gan gydnabod pwysigrwydd Cymraeg 2050, a rôl addysg o ran cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn nodi cynllun deng mlynedd y Cyngor ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc addysgol ymhellach. Mae'r ymrwymiadau o fewn y CSCA yn agwedd allweddol ar y Strategaeth hon.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y plant ym Mlwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031-32. Mae hyn yn cyfateb i greu tua 390 o leoedd blwyddyn un erbyn 2031-32 yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth presennol. Targed yw hwn, nid cyfyngiad, felly lle mae cyfle i ragori ar ein targedau rhwng nawr a 2032, byddwn yn manteisio ar y cyfle hwnnw. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn bragmataidd yn ein gallu i gyflawni ochr yn ochr â'n partneriaid a chydnabod a lliniaru yn erbyn heriau sy'n hysbys.

## CYNYDDU CAPASITI ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg eisoes wedi'u nodi, megis y cynnig i ymestyn darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Bont-faen. Byddai hyn yn destun ymgynghori ac ariannu. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i gefnogi CSCA'r Cyngor yn flaenoriaeth allweddol fel rhan o ddatblygu Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer camau pellach y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r cyngor yn derbyn, er mwyn cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bod angen buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth addysg er mwyn creu a hwyluso'r galw am addysg Gymraeg. Bydd cam deng mlynedd nesaf Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Bro Morgannwg yn rhan annatod o strategaeth cyfrwng Cymraeg y Cyngor.

Wrth gyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i greu galw, strategaeth y Cyngor ar gyfer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru fydd parhau i ganfod cyfleoedd i gynyddu addysg Gymraeg ar draws pob sector, gan greu galw ac adlewyrchu datblygiadau tai newydd sydd wedi'u cynllunio dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi nodi, ar sail y dystiolaeth hyd yma ar y galw cynyddol sy'n deillio o ddarpariaeth newydd, y bydd angen darpariaeth uwchradd ychwanegol ac y caiff hynny ei ystyried fel rhan o gynllunio trefniadaeth ysgolion parhaus. Bydd y Cyngor yn ceisio canfod safle newydd yn ardal Penarth neu'r Bont-faen yn dilyn gwerthusiad o ddigonolrwydd y galw i gefnogi'r ysgol arfaethedig. Ystyrir y byddai angen i hyn ffurfio rhan o Gynllun Datblygu Lleol Newydd y Cyngor sydd ar hyn o bryd yn y camau cychwynnol o gael ei lunio. Byddai hyn yn arwain at safleoedd ysgol newydd yn cael eu dyrannu yn y cynllun datblygu newydd i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol drwy'r broses gynllunio a bod modd eu cyflawni yn nhermau cynllunio. Bydd adolygiad o leoedd Cymraeg uwchradd yn cael ei gynnal er mwyn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mae adolygiadau parhaus o'r galw am leoedd addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf a'r amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer Bro Morgannwg a gaiff eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer addysg, mae hyn yn cael ei ystyried ar lefelau dalgylch unigol a ward, gan gydnabod bod angen edrych ar gymunedau lleol, nid dim ond targedau ar gyfer y sir gyfan. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu llywio gan niferoedd

blaenorol y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod a thargedau a dyheadau'r CSCA hwn i sicrhau bod digon o lefydd cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig yn yr ardal. Y sbardun allweddol wrth gynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yw sicrhau bod rhieni'n cael cyfle i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn agos i'w cartrefi.

## DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018 (Deddf ADYTA 2018) o ran trawsnewid disgwyliadau a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r Strategaeth Fuddsoddi Ysgolion hon yn cefnogi'r gofyniad hwn trwy sicrhau bod manylebu priodol, cynllunio lleoedd prif ffrwd a chanolfannau adnoddau arbenigol a gweithredu rhaglenni Cyfalaf priodol yn digwydd mewn modd amserol ac effeithiol.

Mae’r Ddeddf ADYTA yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd â hi sy'n sicrhau bod gan y system newydd gyfres o baramedrau clir y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion, colegau addysg bellach a gwasanaethau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu. Dyma nod y dull gweithredu newydd, fel y nodir yn y Cod:

Cefnogi'r broses o greu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa arno a'i fwynhau.

Mae'r fframwaith statudol newydd yn seiliedig ar y 5 egwyddor ganlynol:

- Ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth; a galluogir y plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau a bod ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau ynghylch ADY, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a materion cysylltiedig.
- Nodi’n gynnar, ymyrryd a chynllunio pontio effeithiol lle nodir anghenion, a rhoi darpariaeth yn ei lle cyn gynted â phosibl a lle bo'n bosibl gwneud ymyriadau er mwyn atal yr ADY rhag datblygu neu ddwysáu.
- Cydweithredu lle mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael ei nodi'n gynnar a bod cymorth cydgysylltiedig priodol yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.
- Addysg gynhwysol sy'n cefnogi cyfranogiad llawn mewn addysg brif ffrwd, lle bynnag y bo’n ymarferol, a dull lleoliad cyfan tuag at ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
- System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg.

Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu hadlewyrchu lle bynnag y bo modd wrth gynllunio a buddsoddi mewn lleoedd ysgol.

## 4.2. CYFLWR, ADDASRWYDD A DIGONOLRWYDD ADEILADAU YSGOL

Mae cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd adeiladau ysgol yn ffactor penderfynu allweddol ar gyfer buddsoddi ac fe'u diffinnir fel a ganlyn:

- Cyflwr - cyflwr corfforol adeilad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd mewnol ac allanol yr adeilad a'r tir cysylltiedig. Mae'r cyflwr yn fesur a yw ffabrig, cydrannau a gwasanaethau'r adeilad yn perfformio yn ôl y bwriad ac yn gweithredu'n effeithlon a maint y diffygion a'r risgiau yn yr adeiladau.
- Addasrwydd – mae hyn yn ymwneud ag a yw'r ysgol yn briodol ar gyfer ei swyddogaethau arfaethedig e.e. bodlonir trothwyon maint gofynnol ar gyfer ardaloedd chwarae. Mae addasrwydd yn cael ei fesur dros dair ardal sy'n cynnwys lleoliad, delwedd, cynllun a thir cysylltiedig.
- Digonolrwydd – mae'n cael ei ddiffinio fel a all ysgol ddarparu'r gwasanaeth a fwriadwyd. Er enghraifft, a oes gan yr ysgol ddigon o allu i wasanaethu ei disgyblion ai peidio.

Mae manylion am yr ystyriaethau hyn i'w gweld isod:

### AROLYGON CYFLWR AC ADDASRWYDD

Mae arolygon cyflwr ac addasrwydd wedi cael eu cynnal yn ysbeidiol dros nifer o flynyddoedd. Cynhaliwyd yr arolygon cyflwr diweddaraf rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022 ar bob adeilad ysgol. Bydd yr arolygon addasrwydd yn cael eu cynnal yn ystod hydref 2022. Yn flaenorol, cynhaliwyd yr arolygon hyn yn 2017/18.

Mae'r arolygon cyflwr yn nodi diffygion adeileddol a phroblemau cynnal a chadw y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r arolwg yn cynnwys asesiad o'r adeilad a'r systemau peirianneg fecanyddol a thrydanol ynghyd â safle ehangach yr ysgol. Asesir adeiladau a safle'r ysgol, ac mae cyflwr yr adeilad yn cael ei gategoreiddio fel a ganlyn:

- A - Da
- B – Boddhaol
- C – Gwael
- D – Drwg

Bydd yr adeiladau a'r elfennau hynny sydd â gradd C a D yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi er mwyn sicrhau y gall yr ysgol barhau i weithredu.

Mae'r arolygon addasrwydd yn adolygu'r ysgol yng nghyd-destun y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Amgylchedd** - Amgylchedd yr ystafell(oedd) / ardal(oedd) fewnol o ran tymheredd, lleithder, awyr iach, aer glân (os oes angen), lefelau goleuadau, golau dydd.

- **Cynllun a Hyblygrwydd** - Cynllun yr ystafell(oedd) / ardal(oedd) sy'n berthynol i'r offer a ddefnyddir, swyddogaethau atodol a chysylltiedig ystafell, dodrefn, cylchrediad a mynediad. - Gallu cynhenid yr ystafell(oedd)/ardal(oedd) i gael ei newid, ei diwygio neu ei newid o ran maint, amgylchedd a

chynllun mewn ymateb i alw newidiol - bydd hyn yn ffactor o ddylunio gwasanaethau adeiladau ac adeiledd. Mewn cymhariaeth uniongyrchol â chanllawiau BB98/99 ar faint ystafelloedd, beth yw’r cynllun ac AMN yr ystafelloedd allweddol a ddefnyddir at ddibenion addysg. Adolygiad o gyfleusterau cegin.

- **Gofynion gwasanaethu ac Iechyd a Diogelwch** - Gallu ffitiadau'r ystafell(oedd) / ardal(oedd), dodrefn ac offer i ddiwallu anghenion a nodwyd y defnyddwyr, megis capasiti trydanol, pwyntiau data ac ati.
- **Amgylchedd Allanol Cyffredinol** - Ansawdd yr amgylchoedd a'r lleoliadau allanol. Gallai hyn gynnwys ffactorau megis llwybrau troed ac ansawdd goleuo, golwg yr adeilad a’r safle, ac arwyddion.
- **Diogelu a Diogelwch** - A yw safle'r ysgol a'r adeilad yn ddiogel i sicrhau diogelwch disgyblion a staff.
- **Cydymffurfio â'r Ddeddf Hygyrchedd a Chydraddoldeb** - A yw'r adeilad a'r safle yn gwbl hygyrch i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anabledd corfforol.

Bydd yr arolygon cyflwr ac addasrwydd yn cael eu cynnal bob 5 mlynedd, gydag adolygiad blynyddol wedi'i raglennu i sicrhau bod cyflwr yr ysgolion yn cael ei fonitro a bod y gwaith a nodwyd yn cael ei wneud.

## HYGYRCHEDD YR YSGOL

Mae'r arolygon cyflwr ac addasrwydd hefyd yn nodi problemau hygyrchedd o fewn ystâd yr ysgol. Mae'r Cyngor wedi llunio Strategaeth Hygyrchedd 2021-24 yn unol â Deddf Cydraddoldeb (2010).

Ar hyn o bryd mae 8 ysgol yn gwbl hygyrch ac mae 15 yn rhannol hygyrch. Mae rhaglen dreigl flynyddol o waith gwella hygyrchedd o fewn y rhaglen gyfalaf er mwyn gwneud newidiadau ffisegol i adeiladau ysgolion a gosod targedau i wella'r sefyllfa bresennol. Mae'r addasiadau hyn i'r ystâd bresennol yn cael eu hariannu o'r rhaglen gyfalaf neu'r cyllidebau refeniw Addysg a reolir yn ganolog, yn dibynnu ar faint yr addasiadau.

Mewn perthynas ag adeiladau ysgol newydd, rhaid dylunio'r rhain i gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anabledd. Wrth gynllunio prosiect datblygu ysgol newydd, rhaid cynnwys elfennau dylunio i gefnogi disgyblion anabl. Mae'r rhain yn cynnwys ystafell fach rhwng pâr o ystafelloedd dosbarth a allai gael ei defnyddio ar gyfer dysgu unigol / grŵp bach neu a allai gael ei defnyddio fel man tawel os oes angen i ddisgybl adael yr ystafell ddosbarth. Caiff defnydd creadigol o ddeunyddiau acwstig a chynlluniau lliw pwrpasol sy’n tawelu ac ati hefyd eu hystyried gan y tîm dylunio mewn ymgynghoriad llawn â staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae adeiladau ysgol newydd wedi'u cynllunio i gael gofodau hyblyg y gellir eu haddasu gan ddefnyddio dodrefn ar gyfer gweithgareddau penodol, megis ardaloedd tawel ar gyfer dysgu unigol. Mae adeiladau newydd wedi'u cynllunio i'r safonau acwstig presennol (BB93). Bydd hyn yn diffinio'r safon perfformiad acwstig y bydd ysgolion yn bwriadu ei defnyddio. Caiff pob adeilad ysgol newydd ei ddylunio i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol o ran mynediad anabl gyda pharcio a mynediad i adeilad yr ysgol yn ogystal â mynediad ym mhob rhan o’r ysgol. Bydd golau naturiol ac awyru’n nodwedd allweddol yn yr amgylcheddau dysgu newydd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sicrhau hygyrchedd yn ffocws parhaus; bydd newid staff, ac ysgolion/lleoliadau ar adegau yn cyflwyno anghenion dysgu ac anableddau ychwanegol am y tro cyntaf. Bydd angen gweithredu a datblygu ymhellach bob amser. Ein nod felly yw meithrin 'diwylliant dysgu' sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus ym mhopeth a wnawn. Cyflawnir hyn drwy’r canlynol:

- Darparu canllawiau a hyfforddiant parhaus i staff i'w cefnogi i weithredu deddfwriaeth berthnasol yn effeithiol.
- Casglu a lledaenu enghreifftiau o arfer da ar draws y Cyngor a'r gymuned addysgol ehangach.
- Darparu gwybodaeth i annog datblygiad proffesiynol parhaus ym maes anghenion dysgu ychwanegol, anabledd a chynhwysiant.
- Sicrhau mynediad parhaus at gyngor a chymorth drwy wasanaethau arbenigol a gynhelir yn ganolog a sefydliadau partner.
- Datblygu ysgolion ymhellach fel canolfannau rhagoriaeth.
- Gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd er mwyn cefnogi mynediad wrth gychwyn mewn ysgol a throsglwyddo rhwng ysgolion.
- Creu hinsawdd lle mae ysgolion bob amser yn ystyried disgyblion anabl pan gynigir unrhyw newid i'r cwricwlwm a pholisïau eraill.
- Sicrhau bod ysgolion yn adolygu eu cynlluniau hygyrchedd yn rheolaidd.

Nod y Cyngor yw sicrhau bod gwelliannau i amgylchedd ffisegol ysgolion yn cael eu gwneud i gynyddu mynediad i addysg. Cyflawnir hyn drwy’r canlynol:

- Cefnogi ysgolion i adolygu mynediad ffisegol eu safleoedd.
- Sicrhau bod yr Adran Eiddo yn monitro'r holl brojectau adeiladu a gynhelir yn ganolog neu gan ysgolion er mwyn mynd i'r afael â materion hygyrchedd.
- Rhoi cyngor i ysgolion ar faterion anabledd a hygyrchedd.

Bydd y Cyngor hefyd â’r nod o sicrhau bod gwelliannau i'r ddarpariaeth wybodaeth ar gyfer disgyblion anabl yn cael blaenoriaeth. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cymorth a chyngor ar ddarparu gwybodaeth a pharhau i gynnal gwasanaethau cymorth arbenigol.

## DIGONOLRWYDD YR YSGOL

Mae gennym ddyletswydd statudol i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion a mynediad teg a phriodol i addysg. Ein rôl ni yw cynllunio, adolygu a sicrhau bod lleoedd ysgol ar gael mewn ffordd sy'n cefnogi ysgolion i godi safonau, rheoli'r cyflenwad a'r galw a sicrhau bod ysgolion yn amgylcheddau dysgu bywiog a dymunol sy'n bodloni safonau modern.

Mae'r Strategaeth Fuddsoddi mewn Ysgolion hon yn helpu ysgolion, rhieni/gofalwyr, cydweithwyr, partneriaid lleol a rhanddeiliaid i ddeall sut rydym yn nodi cynllunio lleoedd ysgolion, y ffyrdd y bydd lleoedd yn cael eu darparu, yr wybodaeth a ddefnyddir, a'r rhesymau dros y cynigion i ddarparu amgylcheddau ysgol hygyrch o ansawdd uchel.

## ASESIADAU CAPASITI YSGOLION

Capasiti ysgol yw nifer y disgyblion y mae ganddi le iddynt. Gellir dod o hyd i'r ffordd y mae'n rhaid i ni gyfrifo capasiti'r ysgol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 021/2011, Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru 2011. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r dull o asesu capasiti ysgolion cynradd ac uwchradd a phennu niferoedd derbyn priodol o'r capasiti. Gellir defnyddio'r dull hwn:

- i gynllunio lleoedd ysgol
- i adrodd ar leoedd gwag
- i bennu niferoedd derbyn i ysgolion.

Mae ALlau yn gyfrifol am asesu capasiti a niferoedd derbyn cyhoeddedig yr holl ysgolion y maent yn eu cynnal, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Mae'n ofynnol i ni ddefnyddio'r canllawiau wrth ailgyfrifo capasiti ysgolion a niferoedd derbyn.

Mae'r cyngor yn adolygu capasiti ysgolion yn rheolaidd ac ar ôl derbyn cynlluniau adeiladu ysgolion wedi'u diweddaru.

## CYNALIADWYEDD

Mae cynaliadwyedd yn fetrig pwysig i'w ystyried fel rhan o gyfleoedd buddsoddi. Bydd canlyniadau cynaliadwyedd prosiect yn cael eu hasesu i sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Diffinnir hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol fel "rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

Bydd cyfleoedd buddsoddi yn cael eu hasesu ar y pwyntiau canlynol:

- A yw canlyniadau byrdymor prosiect yn diogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor?
- A yw'r prosiect yn cyflawni amcanion lles y Cyngor a ddim yn cael effaith niweidiol ar un neu fwy o amcanion lles eraill sy'n gysylltiedig â'r Cyngor neu gyrff cyhoeddus eraill?
- A yw'r prosiect yn cynnwys pawb sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion lles perthnasol ac yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru a'r awdurdod lleol?
- A yw'r prosiect yn caniatáu cydweithio o fewn y Cyngor a chyrff allanol?

Lle na all prosiect ddangos ei fod yn ymateb yn briodol i'r ystyriaethau uchod, ni fydd y Cyngor yn bwrw ymlaen ag ef.

## CYNNAL REFENIW

Mae pob ysgol yn gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw hyd at £10,000 gyda phrosiectau cyfalaf mwy o faint yn cael eu hariannu'n ganolog lle nodir yn y Rhaglen Gyfalaf eu bod yn flaenoriaeth. Mae’r Cyngor yn cadw cyllid canolog ar gyfer yr holl waith o natur cyfalaf yn unol â Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ar gyfrifeg y Cyngor. Dangosir y categorïau o waith y mae disgwyl i gyrff llywodraethu eu hariannu o’u cyfran o’r gyllideb ddirprwyedig yn Atodiad 4 o’r Cynllun Ariannu Teg.

Bydd cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn parhau i fod yn gymwys i gael cyllid CRAMP gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u cyfrifoldebau statudol. Mae hyn ar gael gan eu Cyfarwyddwr Esgobaeth.

### MESURAU CYNNAL A CHADW ADEILADAU YSGOL NEWYDD

Lle mae ysgolion wedi cael eu hailddatblygu'n ddiweddar, byddant yn destun arolwg cyflwr ac addasrwydd lefel uchel ar ôl 5 mlynedd o'u cwblhau. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r gwarantau sydd ar waith yn dilyn datblygiad ysgol a'r risg isel y byddai adeiladau'r ysgol yn dirywio'n gyflym ar ôl eu hadeiladu.

Disgwylir i adeiladau ysgol newydd weithredu i safon uchel am 35 mlynedd cyn i unrhyw broblemau cynnal a chadw mawr godi trwy ddefnydd cyffredinol o'r adeilad a'r cyfleusterau. Fodd bynnag, yn dilyn 10 mlynedd o ddefnydd, ystyrir y gallai mân broblemau cynnal a chadw godi o draul gyffredinol y bydd angen eu cynnwys yn y gyllideb cynnal a chadw ar gyfer ysgolion newydd. Mae eithriadau, fel caeau 3G a 4G sydd angen eu cynnal a'u cadw yn flynyddol, ac mae angen newid y cae bob 10 mlynedd ac 8 mlynedd yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae cost yr atgyweiriadau cynnal a chadw hyn yn cael ei chynnal trwy rentu'r cyfleusterau i grwpiau cymunedol a chwaraeon y tu allan i oriau ysgol. Mae hyn wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus yn Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Dylai'r ysgol adrodd wrth y Cyngor am ddiffygion sy'n codi o fewn y 10 mlynedd cyntaf i adeilad ysgol newydd. Bydd y Cyngor yn adolygu a yw'r diffyg yn ymwneud â gwarant sy'n bodoli eisoes ac yn gweithredu'r gwaith gofynnol i gywiro'r mater. Os nad yw'r diffyg yn ymwneud â mater gwarant, bydd yr ysgol yn gyfrifol am y costau cynnal a chadw o fewn eu cyllidebau cynnal a chadw.

## 4.3. DATGARBONEIDDIO AC ECOLEG

Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng Hinsawdd a Natur, mewn ymateb i'r datganiad hwn mae angen i'r strategaeth ystyried sut y bydd cyfleoedd buddsoddi yn mynd i'r afael â datgarboneiddio ac ecoleg. Lle nad yw prosiectau'n darparu gostyngiadau digonol ar allyriadau carbon neu os nad ydynt yn arwain at wella ecoleg, ni fydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â nhw.

Bydd yr ystyriaethau canlynol yn llywio'r gwaith o asesu prosiectau buddsoddi:

### PROSIECT SERO

Mae'r adran Dysgu a Sgiliau yn chwarae rhan arwyddocaol wrth sicrhau bod y cyngor yn cyflawni amcanion Prosiect Sero. Bydd y strategaeth yn blaenoriaethu prosiectau sy'n mynd i'r afael â'r ymrwymiadau a amlinellir yn Prosiect Sero, gan gynnwys:

- Buddsoddi mewn mesurau lleihau carbon ar draws yr ystâd addysg.
- Dylunio ysgolion newydd i fodloni safon Rhagorol BREEAM, gan gyflawni adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, a lleihau cost carbon gwaith adeiladu.

- Monitro a rheoli ôl troed carbon yn ystod y cam adeiladu ac ymchwilio i opsiynau i fynd i'r afael â charbon ymgorfforedig drwy ddeunyddiau naturiol a dulliau adeiladu modern.
- Mabwysiadu dull ffabrig yn gyntaf i gyflawni perfformiad thermol uchel a gosod paneli ffotofoltäig a/neu bympiau gwres ffynhonnell aer.
- Gwella bioamrywiaeth ar dir ysgolion fel ffordd o ddatgarboneiddio a mapio dalfeydd carbon naturiol.
- Canolbwyntio ar ddulliau o leihau ymhellach faint o ynni sy’n cael ei ddefnyddio’n fewnol, e.e. lleihau arlwyo, monitro defnydd cymunedol.

## GWELLIANNAU I ASEDAU A NEWID YMDDYGIAD YSGOL

Bydd pob ysgol newydd a ddatblygwyd gan y Cyngor yn garbon sero-net mewn adeiladau gweithredol. Mae modelu pellach yn cael ei wneud i wella ar y dyluniad sero-net i sicrhau ei fod yn cwmpasu cylch bywyd cyfan yr adeilad o'r gwaith adeiladu i'w ddymchwel. Fodd bynnag, mae nifer yr ysgolion y gellir eu hailddatblygu yn gyfyngedig. O ganlyniad, bydd yr ysgolion hynny nad ydynt wedi'u rhaglennu i gael eu hailddatblygu yn yr hirdymor (10 mlynedd) yn destun cynlluniau gwella asedau sy'n ceisio lleihau allyriadau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni.

Mae'r Cyngor yn defnyddio cyllid Salix i gyflawni cynlluniau effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon o'i adeiladau ysgol. Mae Salix Finance Ltd yn darparu 100% o gyfalaf di-log i'r sector cyhoeddus i wella ei effeithlonrwydd ynni a lleihau ei allyriadau carbon. Wedi'i sefydlu yn 2004, mae Salix yn gwmni annibynnol, nid-er-elw, a ariennir gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban.

Mae Salix yn galluogi sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i arwain wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu eu heffeithlonrwydd ynni.

Mae Salix yn darparu cyllid i ysgolion wella eu heffeithlonrwydd ynni. Trwy osod technolegau ynni-effeithlon, gall ysgolion ostwng biliau ynni a chreu amgylchedd dysgu mwy cyfforddus.

Mae Salix yn ariannu dros 100 o wahanol dechnolegau, gan gynnwys goleuadau LED, boeleri ac inswleiddio. Mae cyllid di-log ar gael drwy gydol y flwyddyn ar gyfer y mathau canlynol o ysgol a gynhelir:

- Cymunedol
- Gwirfoddol a Gynorthwyir
- Ysgolion Gwirfoddol a Reolir
- Sefydledig
- Meithrinfa ALl
- Uned Cyfeirio Disgyblion
- Ysgolion Arbennig

Cynllun Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni Salix (SEELS) yw'r brif ffrwd o gyllid sydd ar gael. Mae Salix yn darparu cyllid di-log drwy'r rhaglen SEELS i helpu i arbed arian a lleihau allyriadau carbon. Mae'r cyllid ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio'n llwyr ar uwchraddio effeithlonrwydd ynni. Gellir gwneud cais drwy gydol y flwyddyn. Mae'r benthyciad di-log yn cael ei ad-dalu gan ddefnyddio'r arbedion ynni a ragwelir o'r technolegau newydd ac fel arfer mae dros gyfnod o 10 mlynedd.

Mae newid ymddygiad yn agwedd bwysig i sicrhau bod mesurau datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni yn llwyddiannus. Bydd angen i brosiectau sy'n cynnwys y mesurau hyn sicrhau bod gwaith monitro effeithiol ar waith i adolygu llwyddiant y prosiectau. Er mwyn sicrhau bod prosiectau'n llwyddiant dylai prosiectau gynnwys cynllun ymgysylltu â defnyddwyr terfynol i hyrwyddo newid ymddygiad. Mae'r Cyngor wedi llunio canllawiau Newid Ymddygiad Ysgolion sy'n cynnwys cyngor ar wella effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn cynnwys:

- Diffodd offer pan nad oes ei angen / dros nos.
- Newid yr amser y mae'r gwres ymlaen, ac am ba hyd.
- Rheolyddion gwresogi parth a thymheredd thermostat is;
  - 18°C ar gyfer addysgu arferol
  - 15°C mewn lleoedd o gylchrediad
  - 21°C mewn ardaloedd ag anghenion arbennig neu blant ifanc iawn ac ardaloedd o weithgarwch isel
- Penodi Hyrwyddwr Ynni a Thîm Ynni i drafod y materion ynni a symud camau gweithredu yn eu blaen. Yn ddelfrydol, yr hyrwyddwr ynni fyddai'r pennaeth neu aelod o'r uwch dîm arwain i sbarduno newidiadau ystyrlon a dangos ymrwymiad yr ysgol gyfan. Gallai'r tîm ynni gynnwys athrawon a llywodraethwyr ond dylai gynnwys disgyblion hefyd. Gallai'r tîm Eco-Sgolion gynnwys hyn yn eu gwaith.

Bydd y canllawiau yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod ysgolion yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â defnyddio ynni.

Ar ben hynny, mae ysgolion newydd yn cynnwys monitro ynni misol. Gellir rhannu'r canlyniadau hyn gyda'r ysgolion a nodi meysydd lle mae angen newid ymddygiad.

## TEITHIO LLESOL

Mae'n debygol y bydd gan nifer o brosiectau oblygiadau trafnidiaeth. Os oes gan brosiect oblygiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar gyfer trafnidiaeth, bydd angen i'r prosiect ddangos sut mae'n hyrwyddo teithio llesol. Bydd cydweithio â Swyddog Teithio Llesol y Cyngor yn hanfodol i nodi prosiectau teithio llesol posibl a allai fod yn gysylltiedig â'r cynnig buddsoddi.

Mae ystod eang o fesurau y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer teithio llesol sy'n cynnwys mesurau meddal a chaled. Gall mesurau meddal gynnwys:

- Llunio Cynllun Teithio
- Pecynnau croeso i staff / rhieni / disgyblion newydd sy'n nodi llwybrau cerdded a beicio diogel i'r ysgol.
- Hyrwyddo digwyddiadau a chynlluniau e.e. Wythnos Cerdded i'r Ysgol ac 'Wythnos y Beic', a'r cynllun Beicio i'r Gwaith.

- Rhannu ceir
- Bws Cerdded
- Hyfforddiant beicio
- Cylchlythyrau sy'n hyrwyddo teithio llesol ar gyfer rhieni

Mae mesurau caled yn cynnwys:

- Gosod storfeydd a safleoedd ar gyfer beiciau
- Gosod safleoedd ar gyfer sgwteri
- Creu llwybr teithio llesol diogel o fewn safle'r ysgol a’r ardal gyfagos.

## CARBON SERO-NET

Mae cyflawni carbon sero-net ym mhob ysgol ym Mro Morgannwg yn ddyhead allweddol i'r Cyngor.  Bydd pob ysgol newydd yn cael ei darparu fel ysgolion gweithredu carbon sero-net gyda'r nod o ddatblygu'r cwmpas sero-net i gynnwys adeiladu a dymchwel ysgol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu pob elfen sero-net ar unrhyw gynlluniau Band B sy'n rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.   Fodd bynnag, ni roddwyd ymrwymiad pellach y tu hwnt i Fand B i ariannu'r elfennau hyn.   Gall y gost gyfartalog sy'n gysylltiedig â sero-net amrywio yn dibynnu ar raddfa'r ysgol a gynigir.   Ar gyfer ysgol gynradd, y gost ar gyfartaledd ar hyn o bryd yw £500,000 ond ar gyfer ysgol uwchradd mae hyn yn cynyddu i £1 miliwn.

Bydd angen i'r Cyngor adolygu'r costau a sicrhau ei fod yn barod i ariannu ysgolion sero-net newydd y tu hwnt i Fand B yn amodol ar unrhyw newidiadau i ymrwymiad cyllido Llywodraeth Cymru.

## ECOLEG A DYSGU AWYR AGORED

Mae tir yr ysgol yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt a chyfleoedd i blant ddysgu o'r byd naturiol.  Mae prosiectau natur ysgolion yn rhoi buddion uniongyrchol i'r amgylchedd yn ogystal â dylanwadu ar ddiddordebau ac agweddau pobl ifanc.  Mae myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn prosiect ymarferol yn magu hyder ac ymdeimlad o berchnogaeth. Yn ogystal, mae gofalu am yr amgylchedd a dysgu yn yr awyr agored yn gwella iechyd a lles plant.

Mae’r rheiny sydd â 'deallusrwydd naturiaethol' yn dysgu orau wrth ymwneud â phrofi, casglu neu ddadansoddi rhywbeth yn y byd natur neu’n agos gysylltiedig â natur, ac felly maent yn dysgu mwy drwy fod y tu allan.  Mae buddion iechyd corfforol hefyd trwy gysylltiad â natur a chwarae naturiol, gan gynnwys lleihau effeithiau gordewdra ymhlith plant, a gwella iechyd meddwl a lles emosiynol. Er enghraifft, mae canfyddiadau'n awgrymu bod disgyblion ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG) yn ymgysylltu’n well â dysgu ar ôl bod mewn cyswllt â natur.

Gallai tir yr ysgol a mannau awyr agored lleol hefyd fod yn agored i aelodau eraill o'r gymuned ac felly gall prosiectau natur fod yn ffocws pwysig i deuluoedd a grwpiau cymunedol lleol. Gall hyn gynnwys mynediad i randiroedd / gerddi tyfu ar dir yr ysgol. Trwy gynyddu mynediad i'r cyfleusterau hyn, gall y Cyngor helpu i leihau tlodi bwyd, darparu hyfforddiant garddwriaeth a hyrwyddo marchnadoedd ffermwyr cymunedol.

Mae datblygu a rheoli mannau sy’n ysbrydoli yn yr ysgol a'r tu allan iddi yn rhoi cyfle i athrawon feithrin sgiliau bywyd megis cynllunio, cyllidebu, amserlennu, negodi a rheoli prosiectau. Mae'n annog gwaith tîm, gweithgarwch rhwng cenedlaethau a gellir ei ddefnyddio hefyd i ysgogi ymchwil unigol.

Yn lleol, mae cefnogi natur hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan 'Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016', 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' a gall fod yn rhan o'u 'Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol'. Gall hyn arwain at fwy o gefnogaeth i'r ysgol gan amrywiaeth o staff yn yr awdurdod lleol a gall hefyd helpu i atgyfnerthu pwysigrwydd ysgolion mewn cymunedau lleol cynaliadwy.

Dylai prosiectau buddsoddi sy'n ymwneud ag ecoleg ystyried sut y gellir gwella ecoleg ar y safle a sut y gellir ei chynnwys yn yr amgylchedd dysgu. Mae’r Cyngor wedi llunio pecyn adnoddau adfer natur ac addysg ysgolion sydd â'r nod o helpu ysgolion i nodi'r lefel bresennol o natur ar eu tiroedd a darparu adnoddau i roi hwb pellach i welliannau natur. Un o'r nodau allweddol yw i ymgysylltiadau a gwelliannau natur gael eu hintegreiddio'n well i drefn ddyddiol ysgolion, fel nad yw prosiectau'n cael eu hystyried yn anghyfleustra ond yn rhan bwysig o'r cwricwlwm a datblygiad a rheolaeth lles disgyblion.

Bydd y pecynnau adnoddau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod ysgolion yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf o ran ecoleg a chyngor ar weithredu gwelliannau ar safleoedd ysgolion. Caiff y pecynnau adnoddau eu diweddaru i gynnwys Calendrau Natur sy'n nodi prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion a gynhelir trwy gydol y flwyddyn i sicrhau'r budd ecolegol mwyaf posibl ar y safleoedd ysgol. Gall hyn gynnwys cyfrif pili palod a Dim Torri ym Mai sy'n helpu i gynnwys staff a disgyblion yn eu hamgylchedd lleol.

# 5. FFYNONELLAU A GOFYNION ARIANNU

## 5.1. CYLLID CYFALAF

Daw cyllid cyfalaf y Cyngor o bedair prif ffynhonnell:

- Derbyniadau Cyfalaf
- Cronfeydd Wrth Gefn
- Benthyca
- Rhwymedigaethau ariannol Adran 106

Dylai pob cyfle buddsoddi geisio lleihau'r angen am fenthyca. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael y tu allan i'r Cyngor megis cyllid grant Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, dylai tir ac eiddo o fewn yr ystâd addysg nad oes eu hangen gael eu hadolygu a'u penderfynu trwy'r protocolau perthnasol ynghylch a ellid gwerthu'r tir i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau yn y rhaglen fuddsoddi Dysgu a Sgiliau.

Bydd ceisiadau am gyllid cyfalaf yn destun ceisiadau mewnol sy'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Mewnweledied Strategol a'u cadarnhau gan y Cabinet.

### CYLLID GRANT LLYWODRAETH CYMRU

Mae prif ffynhonnell cyllid sydd ar gael i'r Cyngor yn ymwneud â grantiau Llywodraeth Cymru. Mae'r prif gynlluniau grant a ddefnyddir gan y Cyngor yn cynnwys:

- Grant Cynnal Refeniw

  Mae'r Cyngor yn creu Fformiwlâu Cyllid Ysgolion Prif ffrwd ac Arbennig ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n pennu'r gyllideb ar gyfer ysgolion. Mae hyn yn cynnwys arian a dderbyniwyd o'r grant cynnal refeniw. Mae'r fformiwla ariannu yn rhoi cyfrif am sawl ffactor sy'n cynnwys niferoedd disgyblion, unedau disgyblion a bwysolir yn ôl oedran, dyraniadau arwynebedd llawr, cyllid ADY, dyraniadau cyfandaliadau a chyllid ar gyfer arlwyo a chlybiau brecwast. Mae'r cyllid a ddyrennir ar niferoedd disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o arian i dalu am y derbyniad ym mis Medi i gefnogi'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r costau gweithredol ar gyfer yr adeilad gan gynnwys gwaith cynnal a chadw yn dod o'r dyraniadau arwynebedd llawr ac unrhyw ddyraniadau cyfandaliadau perthnasol.

- Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
  Mae'r grant hwn yn rhaglen fuddsoddi hirdymor mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru. Ei nod yw gwella ansawdd adeiladau ysgolion, sicrhau bod lleoedd ar gael i ateb galw disgyblion lleol, lleihau lleoedd gwag, lleihau costau rhedeg, a hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae dyraniad grant yn seiliedig ar

achos busnes llwyddiannus a gymeradwywyd gan Banel Buddsoddi Llywodraeth Cymru. Yr amlen ariannu gyfredol i ariannu prosiectau'r Cyngor o fewn y rhaglen yw £148,813,000 a bydd £101,419,000 ohoni'n cael ei ariannu gan grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

- Grant ADY
  Nod y grant yw gwneud y gorau o amgylcheddau dysgu cyn 16 ar gyfer y rheini ag ADY a chynyddu hygyrchedd i hyrwyddo ymarfer cynhwysol, cefnogi dysgu a lles disgyblion. Bydd hyn yn cefnogi gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cwricwlwm i Gymru. Dyraniad y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw £910,350. 2022/23 yw'r flwyddyn gyntaf o gyllid grant ac ar hyn o bryd nid oes sicrwydd y bydd y cyllid hwn yn parhau.

- Grant Ysgolion Cymunedol
  Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod mwy o ysgolion yn gallu gweithredu a datblygu fel Ysgolion Bro, sy'n cysylltu ac yn ymgysylltu â theuluoedd, ac yn gweithio gyda'r gymuned ehangach i gefnogi pob disgybl ac yn enwedig y rheini sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Dyraniad y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw £910,350. 2022/23 yw'r flwyddyn gyntaf o gyllid grant ac ar hyn o bryd nid oes sicrwydd y bydd y cyllid hwn yn parhau.

- Grant Addysg Gymraeg
  Mae'r buddsoddiad cyfalaf yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy gefnogi pob dysgwr i ddod yn siaradwyr Cymraeg erbyn iddo adael yr ysgol. Nod y grant yw cynyddu'r capasiti mewn ysgolion Cymraeg, cefnogi trochi sgiliau Cymraeg yn gynnar trwy wella'r broses bontio o ofal plant i'r cynradd, yn ogystal â helpu dysgwyr mewn ysgolion Saesneg a dwyieithog i wella eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.

## ADRAN 106 - RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

Mae cytundebau Adran 106 yn sicrhau cyfraniadau ariannol yn seiliedig ar yr effeithiau a ragwelir o ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg ym Mro Morgannwg. Mae'r Cyngor wedi llunio'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio sy'n egluro ble, beth, pryd a sut y caiff rhwymedigaethau cynllunio eu ceisio, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i greu cymunedau cynaliadwy sy'n rhoi budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

O ran cyfraniadau addysg, mae'r CCA yn nodi'r trothwyon canlynol ar gyfer datblygiadau lle gofynnir am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr:

| Math o Rwymedigaeth | Trothwy Datblygiadau Preswyl | Trothwy Datblygiadau Masnach |
|---|---|---|
| Addysg | 10 | - |

Bydd datblygiadau preswyl â chynnydd net o 10 annedd neu fwy yn cael eu hasesu i bennu faint o ddisgyblion newydd a geir yn sgil y datblygiad. Caiff fflatiau stiwdio, unedau 1 ystafell wely neu lety ar gyfer yr henoed neu fyfyrwyr eu heithrio o unrhyw gyfrifiadau. Pan nad yw'r capasiti sbâr sydd ar gael yn yr ysgolion lleol presennol yn diwallu'r galw o ran y disgyblion newydd a ddaw, bydd angen rhwymedigaeth gynllunio i allu cynnig lleoedd ychwanegol. Pan fo gan ysgolion gapasiti o 10% neu lai, gofynnir am rwymedigaethau ariannol. Mae hyn er mwyn adlewyrchu amcan Llywodraeth Cymru i gynnal capasiti o 10% mewn ysgolion yng Nghymru.

Nod y Cyngor yw sicrhau mewn achosion lle bydd angen cyfleusterau angenrheidiol fel ysgol newydd ar gyfer datblygiad newydd, bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y datblygiad newydd. Fodd bynnag, ceir achosion lle nad yw darparu ysgol newydd o fewn datblygiad yn briodol nac yn ymarferol. Felly, ceisir rhwymedigaeth ariannol i fynd i'r afael â'r effaith debygol y byddai'r datblygiad yn ei chael ar gapasiti ysgolion sy'n gwasanaethu'r datblygiad. Dylid nodi bod rhwymedigaethau cynllunio yn agored i drafodaeth, gall datblygwyr gyflwyno gwybodaeth ddichonoldeb i ddangos bod gofynion adran 106 yn rhy feichus. Bydd y Cyngor yn asesu dichonoldeb naill ai'n fewnol neu drwy ymgynghorydd annibynnol o'i ddewis, megis y Prisiwr Dosbarth. Lle bo gofyn am gyngor proffesiynol arall, er enghraifft cyngor priffyrdd neu ecolegol, gellid cysylltu ag ymgynghorwyr arbenigol eraill. Bydd rhaid i'r datblygwr dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r asesiadau hyn. Bydd gofyn i ddatblygwyr amlygu unrhyw gostau datblygu annormal ar y cam diweddaraf posibl, er mwyn gallu asesu eu heffaith ar ymarferoldeb y cynllun. Ni ddylid amddiffyn elw datblygwyr ar draul cyfraniadau gofynnol megis tai fforddiadwy lle y cafodd gormod ei dalu am safle.

Pan fo datblygwr yn dangos nad yw cyflawni'r holl rwymedigaethau cynllunio mewn perthynas â datblygiad yn ymarferol, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad ar flaenoriaethu rhwymedigaethau. Caiff hyn ei asesu fesul safle gan ystyried manylion y datblygiad bryd hynny ac yng ngoleuni'r profion statudol. Fodd bynnag, wrth ystyried sut caiff rhwymedigaethau cynllunio eu blaenoriaethu, bydd y Cyngor yn ystyried yr anghenion penodol sy'n deillio o'r datblygiad. Nodir y categorïau canlynol i helpu gydag asesiadau:

- Y Seilwaith Hanfodol sydd ei angen er mwyn galluogi datblygiad y safle (cyfeirir at Amcanion 1, 2, 3, 4 ac 8 y CDLl) e.e. seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydau; seilwaith gwasanaethau a chyfleustodau; camau lliniaru effaith ecolegol (lle mae rhywogaethau a ddiogelir yn cael eu heffeithio gan y datblygiad) ac atal llifogydd.
- Seilwaith angenrheidiol, sy'n cynnwys:
    - Seilwaith sydd ei angen i liniaru effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar wasanaethau lleol ac i ddarparu am yr anghenion sy'n cael eu creu gan y datblygiad, lle na allant gael eu bodloni gan gyfleusterau presennol (mae Amcanion y CDLl 1, 3 a 5 yn cyfeirio at hyn) e.e. cyfleusterau addysgol; cyfleusterau cymunedol; cyfleusterau gofal iechyd; cyfleusterau mannau agored cyhoeddus a hamdden.
    - Darparu tai fforddiadwy er mwyn bodloni angen lleol (mae Amcanion y CDLl 1 a 7 yn cyfeirio at hyn).
    - Seilwaith sydd ei angen er mwyn bodloni nod y Cyngor o ddarparu datblygiadau o ansawdd uchel sy'n dod â buddion amgylcheddol a buddion eraill i Fro Morgannwg (mae Amcanion 1, 4, 6, 9 a 10 y CDLl yn cyfeirio at hyn) e.e. celf gyhoeddus; amddiffyn a gwella'r amgylchedd; adfywio canol trefi; rheoli llygredd; adnewyddu hanesyddol, cyfleusterau ailgylchu a gwastraff.

Ni ddylai'r categoreiddio hyn fod yn berthnasol oni bai bod y datblygwr wedi dangos na all y datblygiad fodloni holl ofynion rhwymedigaethau cynllunio'r Cyngor oherwydd cyfyngiadau dichonoldeb. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd disgwyl i ddatblygwyr fodloni'r holl ofynion.

Cyfrifir y cyfraniadau addysg gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

*Nifer yr anheddau x nifer y lleoedd ysgol fesul annedd x cost fesul disgybl ar gyfer lle ysgol newydd = rhwymedigaethau ariannol addysg*

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhagdybiaethau a ddefnyddir o fewn y fformiwla i gyfrifo'r gost i ddarparu cyfleusterau a seilwaith sy'n gysylltiedig ag addysg:

| Math o Ysgol | Nifer y lleoedd ysgol fesul annedd | Cost fesul disgybl ar gyfer lle ysgol newydd | Cost cyfartalog fesul annedd |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyn ysgol | 0.1 | £18,249 | £1,825 |
| Ysgol Gynradd | 0.278 | £18,249 | £5,073 |
| Ysgol Uwchradd (11-16 oed) | 0.208 | £27,498 | £5,720 |
| Ysgol Uwchradd (16+ oed) | 0.04 | £29,823 | £1,193 |
| Cyfanswm fesul annedd | | | £13,811 |

Mae'r rhagdybiaethau a amlinellir yn y tabl uchod yn seiliedig ar ddata cyfrifiad deiliaid tai ym Mro Morgannwg a lluosyddion cost 2015 yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd gan gynnwys lwfans o 18% o ffioedd ar gyfer dylunio, dichonoldeb, cynllunio a rheoli prosiectau. Mae'r gost wedi'i chysylltu â mynegai 2017 pan ddrafftiwyd y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio.

Dylid defnyddio cyfraniadau addysgol ar y canlynol:

- Cyfraniadau tuag at wella ac ymestyn ysgolion presennol.
- Darparu ysgolion newydd ar safleoedd datblygu mawr sy'n cynhyrchu niferoedd disgyblion helaeth newydd neu pan nad oes llawer o gyfle i ymestyn ysgolion presennol.
- Cyfraniadau i gyfleusterau trafnidiaeth ysgol.

Rhaid i'r Cyngor allu cyfiawnhau'r effaith y byddai datblygiad yn ei chael ar gyfleusterau neu seilwaith addysg. Wrth ystyried effeithiau ar ysgolion a chapasiti sydd ar gael, bydd y Cyngor yn ystyried tueddiadau data disgyblion, gwybodaeth yngylch dalgylchoedd a phatrymau dewis rhieni i geisio sefydlu lle mae preswylwyr y dyfodol yn debygol o fod angen lleoedd ysgol. Yn arbennig, gall pob dalgylch amrywio o ran rhaniad cyfatebol rhwng addysg cyfrwng Cymraeg, Saesneg ac Enwadol ar lefel gynradd ac uwchradd.

Bydd yr Adran Addysg yn parhau i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau bod y cyfraniadau addysg yn adlewyrchu'r tybiaethau diweddaraf ac yn adlewyrchu'r effaith y mae datblygiadau yn ei chael ar seilwaith addysg.

## 5.2. CYLLID REFENIW

Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae'r cynllun MIM yn fodel newydd a ariennir gan refeniw a lansiwyd ym mis Medi 2020 yn dilyn penodi'r partner strategol a sefydlu WEPCo. Mae MIM yn drefniant Partneriaeth Preifat-Cyhoeddus gyda phartner strategol. Penodwyd Meridiam yn bartner strategol yn dilyn proses gaffael gystadleuol 12 mis o hyd.

Nid oes angen cyfraniad cyfalaf cychwynnol gan y cyngor ar gynlluniau MIM ond byddent yn cael eu hariannu drwy gost refeniw dros y cytundeb 25 mlynedd. Byddai adeilad yr ysgol yn cael ei gynnal yn llawn dros gyfnod y cytundeb 25 mlynedd, a byddai'r adeilad yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y cytundeb. Nid oes angen gwariant cyfalaf cychwynnol ar MIM a byddai'r adeilad yn cael ei gynnal trwy gydol cyfnod y cytundeb 25 mlynedd. Byddai gan y cyngor gostau refeniw blynyddol sy'n gysylltiedig â'r MIM a all arwain at y Cyngor yn cyfrannu mwy at ddatblygiad nag y byddai drwy gynllun cyfalaf. Mae

risgiau eraill hefyd i'w hystyried, megis cyd-destun y safle y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef, a all chwyddo'r costau, er enghraifft, gall problemau llifogydd posibl gynyddu'r premiwm sy'n gysylltiedig â chostau refeniw'r MIM. Mae angen adolygu'r ystyriaethau hyn yn ofalus cyn ymrwymo i gytundeb MIM.

Dylid mynd ar drywydd cynlluniau MIM lle mae'n gwneud synnwyr economaidd i wneud hynny, byddai gwariant cyfalaf uchel ar gyfer cynlluniau sy'n dibynnu ar fenthyca a lle mae'r datblygiad ysgol posibl mewn ardal risg isel, er enghraifft y tu allan i barth llifogydd.

## 5.3. CAFFAEL

Mae caffael yn gam pwysig yn y strategaeth fuddsoddi. Gall sicrhau bod prosiectau'n cyflawni amcanion allweddol y strategaeth fuddsoddi drwy drefniadau cytundebol y cytunwyd arnynt drwy'r broses dendro.

Mae angen i'r cyngor ymgymryd â chaffael yn unol â'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus sy'n gofyn am wahanol ofynion caffael yn seiliedig ar Drothwyon yr UE. Mae'r trothwyon presennol fel a ganlyn:

- Cyflenwadau a Gwasanaethau (ac eithrio contractau gwasanaethau â chymhorthdal)
    - Awdurdodau Lleol: £213,477
- Contractau gwasanaethau â chymhorthdal
    - Pob corff £213,477
- Gwaith (gan gynnwys contractau gwaith â chymhorthdal)
    - Pob corff £5,336,937
- Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn ar gyfer Gwasanaethau
    - Pob corff £663,540
- Contractau bach
    - Cyflenwadau a gwasanaethau: £70,778
    - Gwaith: £884,720

Pan fodlonir trothwyon mae cyfleoedd caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r gyfres lawn o reoliadau sy'n llywodraethu contractau cyhoeddus sy'n gofyn am broses dendro lawn.

Yn ogystal â'r rheoliadau hyn, mae'r cyngor wedi llunio ei bolisi lleol ei hun ar arferion caffael y cyfeirir ato fel y Cod Ymarfer Caffael. Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi cyfres o drothwyon ychwanegol sydd fel a ganlyn:

| Gwerth | Llwybr Caffael |
|---|---|
| Hyd at £15k | Gwahodd dyfynbris a phrofi'r gwerth gorau |
| £15,001 i £74,999 | Gwahodd o leiaf 3 dyfynbris |
| £75,000+ | Gwahodd o leiaf 3 tendr ac ystyried hysbysebu gan ddefnyddio porth GwerthwchiGymru |

| | |
|---|---|
| Trothwyau'r UE | Hysbyseb a phroses orfodol gydag amserlenni penodol |

Mewn achosion lle mae angen tendrau ar gyfer gwaith addysg, dylid defnyddio porth GwerthwchiGymru i hysbysebu'r gwaith arfaethedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod manteision economaidd sy'n deillio o'r gwaith arfaethedig yn parhau yng Nghymru a'r ardal leol.

Fodd bynnag, ar brosiectau mwy ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac adnewyddiadau sy'n £250k neu fwy, dylid defnyddio Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru i dendro ar gyfer y prosiect. Mae'r fframwaith yn gytundeb rhwng awdurdodau contractio De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (gan gynnwys Bro Morgannwg) ac amryw weithredwyr economaidd (contractwyr), a'i ddiben yw sefydlu'r telerau sy'n llywodraethu contractau i'w dyfarnu yn ystod cyfnod penodol, yn enwedig o ran pris a, lle bo'n briodol, y swm a ragwelir. Mae Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru yn darparu llwybr effeithlon ac effeithiol i'r farchnad ar gyfer cyrff cyhoeddus ac mae wedi ymrwymo i gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Disgwylir i gontractwyr a phrynwyr ddarparu lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trwy:

- fuddion i'r gymuned
- cyflogaeth foesegol
- cefnogi BBaChau
- hybu'r economi leol

Dechreuodd Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru ar 3 Mehefin 2019 ac mae'n dod i ben ar 2 Mehefin 2024.

O ran proses dendro'r Cyngor ar gyfer prosiectau, rhaid i dendrau anelu at sicrhau bod y cyflenwr mwyaf addas yn cael ei ddewis i ymgymryd â'r contract gwaith. Yn dilyn yr egwyddor o werth gorau yn hytrach na'r pris isaf, bydd y Cyngor yn dyfarnu contractau ar sail y cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd a asesir yn erbyn y meini prawf perthnasol ar gyfer ansawdd ac elfennau ariannol. Mae'r pwysoliad ar gyfer pob maen prawf fel a ganlyn:

- Ansawdd = 70%
- Ariannol = 30%

I gynorthwyo wrth asesu'r meini prawf uchod maent wedi cael eu rhannu'n is-gategorïau fel a ganlyn:

| Ansawdd - wedi'i bwysoli 70% | |
|---|---|
| Is-feini prawf | Pwysoliad yr agwedd |
| Profiad Cyflenwi ac Adnodd | 20% |
| Logisteg Safle a Rheolaeth | 10% |
| Datblygu Dylunio a Chostau | 20% |
| Buddion i'r Gymuned | 25% |
| Cynaliadwyedd | 25% |
| **Ariannol – wedi'i bwysoli** 30% | |
| Cost y prosiect – gan gynnwys lle bo hynny'n berthnasol:<br>Contract cyn adeiladu<br>Contract adeiladu<br>Gwasanaethau Dylunio ar gyfer y Cam Adeiladu<br>Dim contract sefydlog | 100% |

Mewn perthynas â'r is-feini prawf Ansawdd, bwriedir i'r rhain asesu cymhwysedd y sefydliadau tendro i gyflawni'r canlyniad prosiect gofynnol ac fe'u defnyddir i raddio'r tendrau a dderbynnir.  Er mwyn asesu tendrau ar ansawdd, dylid defnyddio'r cwestiynau canlynol:

**Profiad Cyflenwi ac Adnodd**

- Sut bydd y prosiect yn cael ei gyflenwi, o ran y tîm cyflenwi, adnoddau a'r gadwyn gyflenwi?

**Logisteg Safle a Rheolaeth**

- Sut bydd logisteg y safle a chyfyngiadau safle ar y safle yn cael eu rheoli?

**Datblygu Dylunio a Chostau**

- Disgrifio sut bydd y cynllun cost yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys ymgysylltu gweithredol â rhanddeiliaid (gan gynnwys cyflwyno dyluniadau wedi'u costio ar y camau perthnasol), dangos dyddiadau cynlluniau cost allweddol, targedau ac amserlenni profi'r farchnad, canran y sicrwydd cost sy'n cael ei gyflawni wrth i'r Contract cyn adeiladu fynd yn ei flaen ac ar ba bwynt y byddai ffigur heb fod yn uwch na'r gost yn cael ei ddarparu.    Dylid cynnwys unrhyw arbedion cost posibl yn y cynnig tendr.

**Buddion i'r Gymuned**

- Sut bydd cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy ar gyfer y rheini sy'n ddi-waith yn hirdymor / NEET yn cael eu darparu?
- Sut bydd y contractwr yn gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi leol i wella sgiliau BBaChau?
- Sut bydd y contractwr yn cynnwys rhanddeiliaid ysgolion yng nghynnydd yr adeiladu a STEM?
- Sut bydd y contractwr yn cydweithio â chontractwyr eraill, adrannau'r Cyngor a rhanddeiliaid cymunedol?

- Pwy o fewn eich sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglen buddion cymunedol?

**Cynaliadwyedd**

- Sut bydd y contractwr yn grymuso ysgolion a'r gymuned ehangach i gymryd perchnogaeth o ardaloedd cynefin a thirwedd?
- Sut bydd y contractwr yn ymgysylltu â gweithwyr, is-gontractwyr a chyflenwyr i sicrhau bod eich mesurau diogelu a gwella ecolegol arfaethedig yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus?
- Sut bydd y contractwr yn helpu'r prosiect i gyflawni carbon sero-net yn effeithiol?
- Sut bydd y contractwr yn lleihau eich ôl troed carbon ar y safle a thrwy gydol eich cadwyn gyflenwi?
- Pwy o fewn sefydliad y contractwr sy'n gyfrifol am ddarparu cynaliadwyedd?

O ran meini prawf Buddion Cymunedol a Chynaliadwyedd, mae'r Cyngor wedi llunio dogfennau gofynion ar wahân ar gyfer y ddwy elfen i sicrhau y gall contractwyr ymateb i dendrau yn briodol a bodloni amcanion y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 5.4. RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU.

Y prif raglen fuddsoddi ar gyfer addysg ym Mro Morgannwg yw'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Ceir rhagor o fanylion am gwmpas y rhaglen a'i gofynion isod:

Mae’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol. Mae'r rhaglen yn cynrychioli ymrwymiad hirdymor i'r buddsoddiad strategol yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Nod y rhaglen yw darparu:

- Safleoedd addas at y diben, sy’n galluogi mynediad i bawb sy’n galluogi athrawon i ganolbwyntio ar gynyddu canlyniadau addysgol. Lleoedd dysgu gwell a fyddai’n cynnwys cyfleusterau TGCh, ystafelloedd dosbarth arbenigol a chyfleusterau dysgu awyr agored.
- Rhagor o gyfleoedd i ddysgu trwy greu ac ymestyn ysgolion, gan gefnogi poblogaeth y Fro sy’n tyfu. Cefnogaeth i Gymru ddwyieithog, gyda buddsoddi mewn cyfleusterau addysgol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.
- Ysgolion newydd sydd wedi'u cynllunio i gyrraedd safon Rhagorol BREEAM, sy’n cynnwys cyflawni adeiladau sy’n effeithlon o ran ynni, gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a lleihau cost carbon gwaith adeiladu.
- Cyfleoedd incwm uniongyrchol i ysgolion trwy logi cyfleusterau i’r gymuned. Costau cynnal a chadw llai oherwydd adeiladau newydd ac wedi’u hadnewyddu.
- Mynediad at fannau gwyrdd, cyfleusterau hamdden a pherfformio ac ystafelloedd cyfarfod o ansawdd uchel i ddisgyblion a’r gymuned ehangach.

- Cyfle i blant a grwpiau cymunedol ddysgu am adeiladu, gyda lleoliadau gwaith i ymgeiswyr newydd a chyfraniadau nwyddau i'r sector gwirfoddol fel rhan o ofynion manteision i'r gymuned a osodir at gontractwyr.
- Rhaglen adeiladu sy'n defnyddio cadwyni cyflenwi lleol ac yn cefnogi busnesau bach lle bo'n bosibl.

Mae'r rhaglen bresennol o fewn ei hail gyfran o'r cyllid a elwir Band B. Mae hyn yn cynnwys y prosiectau canlynol:

- Ysgol Uwchradd Whitmore - Math: Ysgol Uwchradd Saesneg; Capasiti: 1,100 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £30m; Cam: Cwblhawyd.

- Ysgol Uwchradd Pencoedtre - Math: Ysgol Uwchradd Saesneg; Capasiti: 1,250 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £33.9m; Cam: Cwblhawyd.

- Canolfan dros Ddysgu a Lles - Math: Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol (CA3 a CA4); Capasiti: 60 disgybl; Buddsoddiad: £7.97m; Cam: Wrthi'n adeiladu.

- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg - Math: Ysgol Uwchradd Gymraeg; Capasiti: 1,660 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £21.46m; Cam: Cwblhawyd.

- Ysgol Glannau'r Barri – Math: Ysgol Gynradd Gymraeg; Capasiti: 420 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £8.46m; Cam: Wrthi'n adeiladu.

- Ysgol Gynradd Trwyn y De - Math: Ysgol Gynradd Saesneg; Capasiti: 210 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £5.43m; Cam: Cwblhawyd.

- Darpariaeth Gynradd y Bont-faen - Math: Ysgol Gynradd Saesneg; Capasiti: 210 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £7.32m; Cam: Wrthi'n adeiladu.

- Ysgol Gynradd Dewi Sant - Math: Ysgol Gynradd Enwadol Saesneg; Capasiti: 210 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £4.79m; Cam: Cwblhawyd.

- Sain Nicholas – Math: Ysgol Gynradd Enwadol Saesneg; Capasiti: 126 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £7.13m; Cam: Heb ddechrau.

- Ysgol y Deri – Math: Ehangu Anghenion Dysgu Ychwanegol i Ysgol y Deri; Capasiti: 150 o ddisgyblion; Buddsoddiad: £21.9m; Cam: Heb ddechrau.

- Darpariaeth Gynradd ym Mhenarth - Math: Ysgol Gymraeg; Capasiti: 210 o ddisgyblion; Buddsoddiad: i'w gadarnhau; Cam: Heb ddechrau.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau gwybodaeth ychwanegol eto am y gyfran nesaf o gyllid yn dilyn diwedd Band B. Fodd bynnag, mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i barhau â'r rhaglen.

Yn y cyfamser, mae'r Cyngor bellach wedi cyflawni 70% o'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn y cam Achos Busnes Llawn a gall ofyn am ychwanegu prosiectau ychwanegol at raglen Band B hyd at y flwyddyn 2024 a rhaid sicrhau bod pob prosiect ym Mand B yn cael eu cwblhau erbyn 2026.

Bydd ceisiadau cyfalaf ar gyfer unrhyw brosiectau newydd yn cael eu cyflwyno i'w hystyried fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn gweithio i fantoli'r gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24. Bydd lefel y benthyca derbyniol yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael o fewn y

gyllideb refeniw na fydd yn hysbys tan fis Ionawr. Ni fydd unrhyw fenthyca digymorth pellach yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf tan yr amser hwn a bydd angen ystyried y costau refeniw sy'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyca arfaethedig. Bydd penderfyniad ar gynnwys y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei wneud ym mis Chwefror pan fydd cynigion y Gyllideb Derfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau sydd ar adnoddau ariannol y Cyngor. Bydd angen ystyried yn ofalus y prosiectau hynny lle bydd angen benthyca sylweddol i gefnogi cynlluniau. Bydd cynigion cyfalaf i ehangu'r rhaglen Band B yn cael eu hadolygu yn ystod y misoedd nesaf, o ran eu manylion a'u symiau.

## GOFYNION

### BUDDION I'R GYMUNED

Mae Bro Morgannwg yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr ddarparu buddion cymunedol diriaethol a mesuradwy sy'n gysylltiedig â ffocws penodol ar brif amcanion polisi Llywodraeth Cymru:

- Recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu – e.e. hyfforddi a recriwtio'r rheini sy'n economaidd anweithgar, lleoliadau i raddedigion, a darparu wythnosau hyfforddi 'ymarferol' i brentisiaid.
- Mentrau cadwyni cyflenwi - e.e. hyrwyddo cadwyni cyflenwi agored a hygyrch sy'n darparu cyfleoedd i BBaCh wneud cais am waith a hyrwyddo ymgysylltiad â mentrau cymdeithasol.
- Mentrau addysgol - e.e. cyfrannu at addysg drwy ymgysylltu â chwricwla ysgolion ac addysg bellach.
- Mentrau amgylcheddol - e.e. cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol y prosiect a hyrwyddo buddion amgylcheddol; a
- Mentrau cymunedol - e.e. cefnogaeth i raglenni cymunedol sy'n mynd i'r afael â thlodi a gadael cryn argraff am amser hir yn y gymuned, ac ymgysylltu â'r trydydd sector.

Bydd prosiectau sy'n cael eu darparu ar gyfer Bro Morgannwg yn cynnwys cyfres o fuddion cymunedol craidd a di-graidd. Bydd pob prosiect yn cael ei annog i feddwl yn arloesol ac edrych ar feysydd targed eraill y gellid eu cynnwys mewn prosiectau unigol.

Lle nodwyd buddion cymunedol fel rhan graidd o'r gofyniad (cynnwys y contract) byddant yn cael eu cynnwys ym meini prawf y dyfarniad. Bydd y sawl sy'n tendro sy'n darparu mwy na'r gwaelodlin yn elwa o hyn yn y model gwerthuso. Bydd buddion cymunedol yn sgorio 20% o'r marc asesu ansawdd cyffredinol.

Gallai methu â chyrraedd y targed buddion craidd arwain at gyflwyno digwyddiadau iawndal. Byddai'r swm sydd i'w godi yn benodol i'r prosiect ac yn cael ei ddiffinio yn y contract. Bydd y gwerthoedd ar gyfer canlyniadau peidio â darparu buddion cymunedol yn cael eu hasesu ar ôl cwblhau'r prosiect a'u mynegeio i MPM.

Roedd yr ymagwedd ddi-graidd yn sail i beilot Gwerth Cymru a gynhaliwyd yn 2006 ac mae'n parhau i gael ei defnyddio fel dull o ddarparu buddion cymunedol. Gellir cynnwys y gofynion di-graidd fel amodau contract ond ni chânt eu hasesu naill ai yn ystod y cam dethol neu ddyfarnu.

Bydd y contractwr yn cyflawni'r gofynion gofynnol a bennir gan Gyngor Bro Morgannwg (gweler Atodiad 1). Mae'r rhain wedi adeiladu ar ofynion sylfaenol Llywodraeth Cymru fel yr amlinellwyd ar gyfer y rhaglen ac maent wedi ymdrechu i wneud yn fawr o'r gwerth cymdeithasol a grëwyd gan brosiectau addysg ym Mro Morgannwg.

Caiff gwybodaeth am fuddion cymunedol ei monitro'n fisol ac yn flynyddol, gydag adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd o leiaf 10% o'r targedau'n cael eu cyflawni yn ystod cam y Contract Gwasanaethau Proffesiynol cyn y gwaith adeiladu.

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod ymagwedd gydweithredol yn cael ei weithredu ar draws ei holl brosiectau. Mae wedi sefydlu grŵp llywio a chyfarfodydd misol i helpu i hwyluso hyn ac mae wedi datblygu ymagwedd safonol o ymdrin â phrofiad gwaith sy'n cael ei rannu ar draws y rhaglen. Felly, disgwylir y bydd y contractwr yn cyfrannu at y camau cydweithredol canlynol:

- Cynnal cyfarfodydd misol gyda holl swyddogion ymgysylltu cymunedol y contractwyr.
- Cynnal digwyddiadau ar gyfer cadwyni cyflenwi ar y cyd a digwyddiadau eraill.
- Rhoi rhaglen profiad gwaith safonol ar waith.
- Cwblhau adroddiadau misol safonol; a
- Mynychu cyfarfodydd grŵp llywio chwarterol gyda phartneriaid ehangach

## DATGARBONEIDDIO

Bydd prosiectau'n dangos Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net fel y'i diffinnir yn Fframwaith UKGBC. Mae'r camau i gyflawni Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net yn cael eu hamlinellu isod:




Fel y nodwyd yn Canllaw Dylunio Argyfwng Hinsawdd LETI, **Mae adeilad carbon sero-net yn bennaf oll yn adeilad ynni-effeithlon.**

Mae defnydd ynni isel yn nodwedd ddiffiniol o adeilad Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net. Ar gyfer defnydd o ynni, defnyddir metrig Dwysedd Defnydd Ynni (DDY), a fesurir mewn kWh/m$^2$ y flwyddyn.

Yn unol â fframwaith UKGBC dylai'r ymagwedd ddylunio ddechrau drwy leihau angen yr adeilad am ynni. Dylid lleihau galw’r adeilad am ynni drwy ymagwedd ffabrig yn gyntaf a'r defnydd o wresogi carbon isel cyn cyflwyno ynni adnewyddadwy i gyflawni Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net.

Dylid osgoi defnyddio systemau gwasanaethau adeiladu cymhleth. Ffefrir systemau sy'n syml i'w deall a'u gweithredu er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr yr adeilad weithredu'r systemau'n effeithiol wrth eu defnyddio.

**Metrigau Allweddol**

Mae LETI yn rhoi manylion dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwahanol fathau o adeiladau i fodloni carbon oes gyfan. Mae'r rhain wedi cael eu mabwysiadu gan Gyngor Bro Morgannwg a'u datblygu i gynhyrchu cyfres o fetrigau a ffiniau i ysgolion newydd eu bodloni er mwyn cyflawni Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net. Cyfeiriwch at fetrigau yn y tabl isod.

Bydd y metrigau hyn yn esblygu wrth i'r diwydiant adeiladu ddatblygu i fodloni'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer adeiladau sero-net ac mae technoleg yn aeddfedu. Eu nod yw creu ymagwedd gost-effeithiol ar gyfer cyflawni Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net gan roi hyblygrwydd i'r dylunydd yn seiliedig ar ofynion neu gyfyngiadau prosiect.

Mae angen i elfennau newydd yr adeiladau gyflawni TPY gradd A a Thystysgrif Arddangos Ynni gradd B yn y ddau gyfnod cyntaf o 12 mis ar ôl eu cwblhau a chyn iddynt gael eu trosglwyddo i Gyngor Bro Morgannwg.

**Dylunio Goddefol**

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddyluniad a lleoliad yr adeilad o ran brise soleil, cysgod solar a'r potensial i orboethi. Mae dyluniad i fod yn unol â chanllawiau CIBSE ar gyfer mannau dysgu ac addysgu o ran tymereddau uchaf ac isaf. Fodd bynnag, ni ddylid mynd dros uchafswm tymheredd o 28 gradd Celsius mewn unrhyw le dysgu neu addysgu. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd yr adeilad yn cael ei awyru'n naturiol gan ffenestri y gellir eu hagor.

Bydd angen system awyru echdynnol mecanyddol mewn toiledau a bydd angen Awyru Mecanyddol gydag Adfer Gwres hefyd mewn ardaloedd penodedig er mwyn bodloni gofynion Rhan F o'r Rheoliadau Adeiladu a Bwletin Adeiladu 101. Fodd bynnag, dylai'r contractwr sicrhau bod y cynigion a gyflwynir yn bodloni'r gofynion hyn.

Bydd mesurau ychwanegol yn cael eu cymryd lle nad yw awyru yn ddigonol neu lle gall gorboethi ddigwydd neu fel rhan o fesurau i gyflawni carbon sero-net ar waith.

**Ynni Adnewyddadwy a Thechnolegau** Carbon Isel

Ar gyfer prosiectau adeiladu newydd, bydd y defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn cael ei gyfyngu i rai ar y safle.

Gwneud yn fawr o ynni adnewyddadwy trwy ynni adnewyddadwy ar y safle. Fel canllaw, dylai o leiaf 70% o arwynebedd y to gael ei orchuddio â phaneli ffotofoltäig. Lle nad oes digon o le ar y to i roi paneli ffotofoltäig, dylid ystyried y defnydd o gasgliadau ffotofoltäig o bell fel ar ganopïau dros ardaloedd chwarae dan do.

Dylai’r hyn sy’n cael ei greu o baneli ffotofoltäig fod yn seiliedig ar yr allbwn llai ar ôl gweithredu am 10 mlynedd. Yn ogystal, dylid darparu ynni adnewyddadwy i gwmpasu 110% o'r defnydd o ynni gweithredol net. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod yr adeilad yn parhau i fod yn Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net yn y dyfodol.

Dylid darparu batris storio, o faint sy’n gweddu i ynni adnewyddadwy a galw'r ysgol.

Dylai’r modd y gwresogir a chynhyrchir dŵr poeth fod yn rhydd o danwydd ffosil. Ffefrir gwresogi carbon isel naill ai trwy Bympiau Gwres Ffynhonnell Aer (PGFfAau) neu Bympiau Gwres o’r Ddaear (PGDdau). Gall hyn weithio ar y cyd â gwresogi o dan y llawr mewn ysgolion cynradd.

**Ymateb i’r Galw**

**Lleihau’r defnydd o ynni yn ystod oriau brig**

Lleihau'r galw am ynni, yn wres a dŵr poeth, yn ystod oriau brig e.e. trwy ddefnyddio cynwysyddion byffro.

Dylid defnyddio gosodiadau dŵr ynni-effeithlon. Fel gosodiadau labeli dŵr Ewropeaidd 'gwyrdd'. Dylai gosodiadau fod yn addas ar gyfer gofynion y prosiect.

Os defnyddir rheiddiaduron, rhaid ystyried eu maint a’u dyluniad priodol yn ofalus i ddarparu ar gyfer tymereddau is pwmp gwres o'i gymharu â boeleri nwy confensiynol, e.e. rheiddiadur panel dwbl darfudol dwbl. Dylid gosod falfiau rheiddiadur thermostatig (eTRVs gyda thermostatau ystafell) ar reiddiaduron.

**Mesurau ymateb i’r galw gweithredol**

Dylai fod gan bob ardal a ddefnyddir synwyryddion tymheredd a charbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'r system rheoli adeilad a rheolaeth pwynt gosod ar gyfer gwresogi ac oeri (lle bo hynny'n berthnasol) trwy'r system rheoli adeilad.

**Profi a Monitro Ynni**

Mae synhwyrydd $CO_2$ (carbon deuocsid) a synhwyrydd tymheredd ystafell yn ofynnol ar gyfer pob lle addysgu, dylai’r synhwyrydd weithredu ar system goleuadau traffig. Yr ystod $CO_2$ sy'n ofynnol ar gyfer y synhwyrydd yw o leiaf 0-5000 o rannau fesul miliwn, yr ystod tymheredd sy'n ofynnol ar gyfer y ddyfais yw o leiaf 0-50°. Dylai fod gan y ddyfais synhwyro sgrin ddarllenadwy glir gyda data sy’n hygyrch a hawdd ei ddefnyddio. Bydd y profion athreiddedd aer yn cael eu cynnal gan aelod o Sefydliad dros Brofi a Mesur Tyndra Aer (ATTMA).

Rhaid i'r contractwr roi o leiaf 4 wythnos o rybudd o ddyddiad arfaethedig y prawf a rhaid iddo ddarparu'r holl ddarluniadau a chyfrifiadau perthnasol y bydd y prawf yn cael eu gwerthuso yn eu herbyn ynghyd â thystysgrifau graddnodi o'r holl offer profi sydd i'w defnyddio.

Er mwyn sicrhau bod y mesurau Ynni Gweithredol - Carbon Sero-net yn effeithiol; mae'n bwysig monitro ynni pan fo’r system yn weithredol. Caiff hyn ei wneud drwy blatfform K2n Prifysgol Caerdydd.

Mae'r platfform wedi'i gynllunio i gyfuno manylion asedau ystadau â data gweithredol, o fanylion misol i fanylion 15 munud, i alluogi eglurder ynghylch ble y dylid cymryd camau gweithredu i wella'r defnydd o gyfleustodau ac amodau mewnol. Cyfeiriwch at **ddogfen ganllaw K2n** ar wahân **ar gyfer manylebau.** Dylai systemau ynni gael eu monitro gan y contractwr mewn cydweithrediad â K2n a'r Cyngor dros y pum mlynedd cyntaf o weithredu. Bydd yr wybodaeth yn destun archwiliad trydydd parti yn unol â gofynion UKGBC.

Mae'r contractwr yn gyfrifol am gywirdeb y data a anfonir at K2n. Bydd K2n yn ymdrechu i amcangyfrif/cywiro data sydd ar goll neu'n anghywir ond ni all warantu ei gywirdeb na'i gyflawnder.

Mae'r broses gyffredinol i'w gweld isod:

- Mae’r contractwr yn darparu enw'r ysgol a'r dyddiad trosglwyddo disgwyliedig i $K^2n$.
- Mae'r contractwr a/neu'r is-gontractwr yn darparu'r Data Asedau Adeilad yr Ysgol y gofynnwyd amdano gan K2n, ynghyd ag Archeb Brynu, i K2n ddechrau disgrifio'r ysgol.
- Bydd K2n yn llunio'r disgrifiadau asedau ar gyfer yr ysgol o'r data hwn ac yn nodi hyn yn mhlatfform K2n yn barod ar gyfer derbyn data gweithredol.
- Mae'r Archeb Brynu yn daladwy am y swm llawn cyn yr anfonir yr adroddiad iSERV cyntaf.
- Mae'r contractwr neu'r is-gontractwr yn dechrau anfon data gofynnol synwyryddion a mesuryddion yr ysgol i K2n yn ddyddiol cyn gynted ag y bydd y data hwn ar gael. Bydd unrhyw ddata a anfonir cyn y dyddiad trosglwyddo yn caniatáu i ni wneud sylwadau ar ei gywirdeb ac nid yw'n cyfrif tuag at yr adroddiadau 15 mis sydd wedi’u cynnwys yn ein costau.
- Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gontractwyr a'r ysgol, dylai contractwyr ymdrechu i ddarparu data gweithredol o ddyddiad trosglwyddo'r ysgol. Mae hyn yn caniatáu i K2n roi adborth ar ansawdd y data ac unrhyw wallau/hepgoriadau wrth bod gwiriadau terfynol yn dal i gael eu gwneud.
- Os oes oedi cyn darparu'r data gweithredol, yna mae unrhyw ddata hanesyddol yn cyfrif tuag at y 15 adroddiad misol sydd i'w darparu. Bydd y 15 adroddiad misol a gynhyrchir yn cynnwys unrhyw fisoedd hanesyddol, er mwyn sicrhau bod cyfres o adroddiadau misol ar gael am flwyddyn gyfan.
- Gellir defnyddio’r platfform $K^2n$ i gynhyrchu adroddiadau ar ôl y cyfnod cyntaf o 15 mis ar daliad pellach ymlaen llaw os oes angen.

**Carbon Ymgorfforedig a Deunyddiau**

Fel lleiafswm, dylai carbon ymgorfforedig yr adeilad fod yn llai na <600Kg$CO_2$/m². Dylai carbon ymgorfforedig deunyddiau gynnwys bywyd cyfan, h.y. echdynnu, cynhyrchu, trafnidiaeth, adeiladu, cynnal a chadw, a gwaredu / ailgylchu diwedd oes.

Dylid ymchwilio i opsiynau deunydd carbon isel (e.e. ffrâm bren, inswleiddio cellwlos, concrid sydd â llawer o gynnwys wedi’i ailgylchu) a dangos tystiolaeth i gyflogwr. Os nad oes modd cyflawni'r deunyddiau opsiwn carbon isaf, rhowch esboniad pam.

Mae'r defnydd o holl ddeunyddiau inswleiddio thermol i osgoi defnyddio sylweddau sy’n teneuo’r osôn a chynhesu byd-eang mewn gweithgynhyrchu neu gyfansoddiad a, lle bo hynny'n bosibl, diwedd oes, os nad oes modd cyflawni hyn, rhowch esboniad pam.

Dylid cael gafael ar yr holl gynnyrch pren a phren cyfansawdd a ddefnyddir mewn elfennau adeiledd ac elfennau nad ydynt yn rhai adeiledd o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy (gydag ardystiad Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd).

Dylid cael gafael ar yr holl bren dros dro a ddefnyddir ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu o ffynhonnell a reolir yn gynaliadwy a dylid ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu lle bo hynny'n bosibl.

Dylid lleihau deunydd pacio a deunydd gwastraff cyffredinol gan ystyried ailddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu a gwastraff sy'n cael ei ddefnyddio yn y cynllun terfynol. Dylid ystyried a chymell cael gafael ar ddeunydd lleol gydag a.% o ddeunydd lleol profedig i'w ad-dalu yn ôl i'r prif gontractwr gydag ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i becynnau is-gontractio allweddol fel Dur Cymru a chyflenwyr deunyddiau ynghyd â chyflogaeth is-gontractio lleol.

## ECOLEG A BIOAMRYWIAETH

Bydd Bro Morgannwg yn sicrhau bod amcanion yr ecosystem a osodir yn realistig ac yn gyraeddadwy gan fod yn ymwybodol o gwmpas a maint y prosiectau unigol.

Dylid creu'r ardaloedd cynefin canlynol, neu wella cynefinoedd presennol yn dibynnu ar amodau a chyfyngiadau'r safle:

- Ardaloedd gwlyb
- Dolydd ac ardaloedd glaswelltog
- Coetir a gwrychoedd
- Ardaloedd "gwyllt" a nodweddion natur
- Ardal “gardd”

Dylid cynllunio ardaloedd cynefin gyda rhywogaethau lleol yn cael blaenoriaeth. Dylai fod ystod amrywiol o ardaloedd cynefin o ansawdd uchel gyda chysylltedd uchel â chynefinoedd o fewn y safle a'r cyffiniau. Dylid blaenoriaethu defnyddio rhywogaethau o darddiad lleol yn seiliedig ar gyd-destun y safle datblygu gyda rhywogaethau lleol yn cael eu plannu sy'n darparu'r amrywiaeth mwyaf. Er enghraifft, nifer y pryfed a'r adar y gall eu cynnal. Dylai disgyblion fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chreu ardaloedd cynefin lle bynnag y bo modd.

**Ardaloedd Cynefin Presennol**

- Dylid sicrhau tarfu cyn lleied â phosibl ar y cynefinoedd presennol yn sgil gwaith adeiladu (gweler adroddiadau coedyddiaeth ac ecoleg ragarweiniol ar gyfer argymhellion gwarchod).
- Os oes unrhyw newidiadau i 'ardaloedd gwlyb' (h.y., pyllau, cyrsiau dŵr ac ati), dylid cyfeirio at ganllawiau Systemau Draenio Dinesig Cynaliadwy (SDCau) ac mewn ymgynghoriad â chyflogwr ac ecolegydd. Dylid adolygu canllawiau arfer gorau hefyd, gan gynnwys canllawiau SDCau RSPB.
- Dylid gwneud unrhyw newidiadau i gynefinoedd glaswellt neu ddôl mewn ymgynghoriad â'r cyflogwr ac ecolegydd.

- Yr holl goed a gwrychoedd presennol o fewn ffin y safle i barhau. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i'r contractwr gyfiawnhau pam. Os yw'n bosibl, dylai'r holl goed y gallai fod angen eu symud gael eu symud i leoliad arall ar y safle.
- Ar gyfer pob un goeden sy'n cael ei thynnu dylid plannu dwy goeden. Dylid ystyried ailddefnyddio'r canghennau a'r pren bach, o unrhyw goed sydd wedi'u tynnu, o fewn y safle i greu pentyrrau cynefin neu aeafdai.
- Dylid diogelu'r holl goed sy'n cael eu cadw yn agos at y gwaith adeiladu gan rwystrau ac amddiffyniadau i'r ddaear i barth gwahardd adeiladu yn unol ag argymhellion BS8545:2014 'Coed mewn perthynas ag adeiladu'. Y parth gwahardd adeiladu yw'r graddau y mae amddiffyniad i'w ddarparu ac mae'n seiliedig ar yr ardal amddiffyn gwreiddiau a ystyrir yn gylch radiws 12 gwaith diamedr y boncyff.

**Ardaloedd Cynefin Newydd a Gwell**

<u>Ardaloedd Gwlyb:</u>

Ymysg y cynefinoedd mae pyllau, gerddi glaw a basnau biogadw. Dylai datblygiadau anelu at gynnwys o leiaf un nodwedd SDCau gyda dŵr parhaol, gydag isafswm dyfnder o 500mm i gefnogi rhywogaethau ehangach fel madfallod dŵr, brogaod a/neu bysgod. Yn ddelfrydol, dylid creu cymhlethfaoedd pyllau neu byllau lluosog gan gynnwys pyllau parhaol a thymhorol o arwynebeddau a dyfnderoedd amrywiol, yn hytrach nag un corff dŵr. Dylai dyluniad y pwll gynnwys parthau tynnu i lawr eang, tonnog, dylai'r rhan fwyaf o'r llethrau fod yn fas (llai na 1:5), a dylai bariau tanddwr a dyfroedd bas fod o fudd i blanhigion dyfrol.

Dylid sicrhau nad yw'r ardal cloddio pwll a'r llwybrau ar y safle yn niweidio cynefinoedd neu rywogaethau gwerthfawr, sy'n cael eu gwarchod neu sydd o dan fygythiad. Fodd bynnag, dylid osgoi tacluso'r ardal gloddio yn ormodol. Mae'r wynebau garw a adawyd gan fwcedi cloddio danheddog, tomenni isel o bridd wedi'i adael neu ei ollwng, olion treulio ar laswellt a rhychau olwynion i gyd yn ychwanegu at amrywiaeth strwythurol micro-raddfa safle ar gyfer planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Ni ddylid defnyddio uwchbridd naill ai yn y pwll, ar ei ymylon, ar y glannau uchaf nac yn unrhyw le lle gallai dŵr wyneb olchi maetholion i'r pwll.

Mae gardd law fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Bwrdd rhydd - anelu at ddyfnder o 200-300mm
- Uwchbridd - Bydd cymhareb o tua 50% o dywod, 30% o uwchbridd a 20% o gompost yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o blanhigion, er nad yw pob planhigyn yn ymdopi'n dda mewn pridd tywodlyd. Argymhellir isafswm dyfnder o 300mm o uwchbridd ar gyfer llwyni a phlanhigion llysieuol. Gellir ystyried dyfnder basach o 200mm ar gyfer gerddi glaw y caiff tyweirch neu hadau blodau gwyllt eu gosod arnynt. Dylid ychwanegu haen o domwellt at erddi glaw wedi'u plannu i helpu i atal chwyn a lleihau cystadleuaeth am ddŵr a maetholion wrth i'r plannu gael ei sefydlu.
- Is-sylfaen – dylid anelu at ddyfnder o 100-500mm. Yn yr achos lle mae'r dŵr yn llifo trwy'r isbridd yn rhwydd, neu os yw'r dalgylch yn fach, gellir ei ystyried yn briodol dileu'r haen is-sylfaen yn gyfan gwbl.

Mae canllawiau Llawlyfr SDCau ar systemau biogadw yn awgrymu y dylai gymryd 48 awr i ddraenio o fod yn llawn i hanner gwag. Mae'n anodd gweithio gyda llethrau o fwy na thua 12% neu 1:8 ac efallai y bydd angen seilwaith diogelu arnynt. Lle mae pibellau dŵr yn bwydo dŵr yn uniongyrchol i ardd law, dylid defnyddio cerrig neu raean i wasgaru egni'r dŵr ac atal llifoedd trwm rhag golchi pridd i ffwrdd. Fel arall, gellir defnyddio pibell i gyfeirio dŵr i'r ardd law.

Dolydd ac Ardaloedd Glaswelltog:

- Mae'r ardaloedd y caiff tyweirch eu gosod arnynt yn cynnwys ardaloedd y mae'r gwaith adeiladu yn effeithio arnynt. O ran yr ardaloedd y caiff tyweirch eu gosod arnynt, dylid eu darparu ag isafswm dyfnder o 150mm o lefel gorffenedig uwchbridd cymeradwy a fewnforiwyd gydag ardaloedd cyfagos. Dylai'r uwchbridd fod yn unol â gradd diben cyffredinol BS3882 ac wedi'i gymeradwyo gan y Rheolwr Prosiect cyn lledaenu. Dylai'r uwchbridd fod wedi'i raddio i gyflawni cyfuchliniau llyfn heb unrhyw bantiau a chefnennau bach.
- Dylid gwasgu wyneb ardaloedd sy'n mynd i gael tyweirch wedi'u gosod arnynt yn ysgafn ac yn unffurf a'u cyfuchlinio i lefelau rhedeg cywir. Dylid rhacanu ardaloedd i bridd mân, ar ddyfnder o 25mm a gwaredu pob carreg o unrhyw ddimensiwn uwchlaw 25mm.
- Ar gyfer dolydd blodau gwyllt, dylai dros 50% o'r ardal, ac yn ddelfrydol 75-90%, fod yn dir moel. Dylid cymysgu'r hadau gyda rhywfaint o dywod gan fod hyn yn ei gwneud hi'n haws hadu. Cerddwch yn ysgafn dros yr ardal i wthio'r hadau i'r pridd. Dylid plannu hadau blodau gwyllt o fis Medi i fis Hydref.

Coetir a Gwrychoedd:

- Dylai coed a llwyni gael eu tyfu mewn cynhwysydd a'u prynu gan gyflenwyr a restrir yng Nghynllun Ardystio Planhigfa'r Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol. Dylai coed a llwyni newydd fod o'r iawn ryw ac o darddiad Prydeinig ac wedi'u labeli yn unol â BS3936.
- Dylai coed a llwyni fod heb eu difrodi'n sylweddol, yn gadarn, yn iach, yn egnïol, o siâp da a heb egin hir, wedi'u tyfu mewn amgylchedd addas a'u caledu, yn rhydd o blâu, afliwiadau clefydau, chwyn ac anhwylderau ffisiolegol, a bod ganddynt systemau gwreiddiau a changhennau cytbwys, a'u bod mewn cyflwr cytbwys.
- Dylai coed a llwyni gael eu gwarchod rhag rhew a'u trin yn ofalus – dylid osgoi difrod mecanyddol a sicrhau nad yw planhigion yn destun sioc e.e., eu bod yn cael ei gollwng o gerbyd.
- Dylid plannu coed mewn tyllau coed wedi'u cloddio ar ddiamedr o 1200mm a dyfnder o 750mm, a dylai'r gwaelod fod ar ddyfnder o 150mm, yr ochrau wedi'u digroeni a'u hôl-lenwi â chompost plannu coed priodol. Dylid clymu'r coed wrth bolyn a'u sicrhau gydag o leiaf dau gwlwm rwber a'u labelu yn unol â BS3936.
- Dylid plannu llwyn ar ddyfnder o 450mm wedi'i lenwi'n ddwfn ag uwchbridd cymeradwy a fewnforiwyd i radd diben cyffredinol BS3882. Dylid compostio yn gyfartal ar gyfradd o 1 metr ciwbig o ddeunydd fesul 25 metr sgwâr yn union cyn ei drin. Ni ddylid defnyddio mawn neu gynhyrchion sy'n cynnwys mawn.
- Dylid darnio unrhyw uwchbridd cywasgedig a thrin 300mm uchaf o'r holl welyau plannu i lacio, awyru a darnio'r pridd yn ronynnau o 2-8mm, gwaredu chwyn â llaw, gwreiddiau chwyn lluosflwydd a dylid dod â deunydd annymunol i'r wyneb gan gynnwys cerrig, priddelli mawr, gwreiddiau, twffau o laswellt a sylwedd dieithr a gadael yr wyneb yn gyson a llyfn.
- Dylid dyfrio planhigion yn syth ar ôl eu plannu a gwasgu'r pridd yn ysgafn o gwmpas gwaelod y planhigion.
- Dylid rhoi tomwellt rhisgl addurniadol gan Melcourt Industries o ronynnau 5-30mm ar 1 metr ciwbig o ddeunydd fesul 20 metr sgwâr.
- Dylid plannu coed a llwyni o ddiwedd mis Hydref tan ddiwedd mis Mawrth.

Ardaloedd "Gwyllt" a Nodweddion Natur:

Os yw'n addas, dylid cornelu rhan o'r safle i ganiatáu adfywio naturiol.  Dylid cynnwys arwydd "ardal wyllt".

Gaeafdy a llochesi boncyffion:

- Dylid creu o leiaf un gaeafdy a dwy loches boncyffion.
- Dylid ystyried ailddefnyddio’r canghennau a'r pren bach, o unrhyw goed sydd wedi'u tynnu, o fewn y safle i greu pentyrrau cynefin neu aeafdai.
- Gellir gwasgaru boncyffion, eu pentyrru'n daclus, neu eu hanner claddu. Mae tyllau wedi’u drilio mewn boncyffion llydan yn creu cyfleoedd ychwanegol i fywyd gwyllt.
- Dylai gaeafdy fod yn 50cm o ddyfnder wrth 1.5 metr ar draws.  Dylid llenwi’r twll gyda boncyffion, canghennau, cerrig, briciau, a phibellau draenio (a’u gadael wedi’u hanner gorchuddio fel tyllau mynediad).   Dylid ei orchuddio â phridd nes bod y twmpath tua 0.5 metr o uchder.  Gellir plannu hadau neu laswellt hir yn y twmpath.

Banc gwenyn:

Dylid creu o leiaf un 'banc gwenyn' ar gyfer gwenyn turio trwy adael twmpath o bridd moel iddynt dyrchu i mewn iddo.  Dylid ei roi mewn pridd tywodlyd mewn man cynnes a gosod rhwystr bach i’w atal rhag cael ei sathru.

Gwesty Pryfed:

Dylid creu o leiaf tri gwesty pryfed bach o gwmpas y safle.  Dylid sicrhau eu bod mewn lle diogel a da (dylid osgoi man lle byddant yn cael gormod o olau haul uniongyrchol), ac osgoi tiwbiau plastig a glud, a dylid darparu gorchudd to digonol i atal llwydni rhag cronni.

Mae'n bwysig cynnwys gwestai pryfed llai o gwmpas y safle yn hytrach nag un gwesty mawr er mwyn osgoi cydgrynoadau annaturiol o uchel o wenyn sy'n nythu.   Dylai pob gwesty pryfed ganolbwyntio ar dyllau mynediad o faint gwahanol i ddarparu safleoedd nythu addas ar gyfer ystod eang o rywogaethau gwenyn a gwenyn meirch.

Cartrefi draenog:

Dylid creu o leiaf dau gartref draenog i'w gosod mewn mannau cysgodol o gwmpas y safle.  Dylid cyfeirio at adroddiad ecoleg am argymhellion pellach.     Dylai bod gan bob ffens fylchau i ddraenogod mewn mannau priodol mewn ymgynghoriad ag ecolegydd.

Blychau adar:

Dylid creu o leiaf dau flwch adar i'w gosod o fewn waliau allanol mewn ymgynghoriad ag ecolegydd.  Ar gyfer ysgolion uwchradd, dylid gosod blychau ar gyfer gwenoliaid duon 5m uwchben y ddaear.  Dylid gosod 3 i 5 blwch arall o gwmpas y safle (e.e., ynghlwm wrth goed).     Dylid cyfeirio at adroddiad ecoleg am argymhellion pellach.

Blychau ystlumod:

Dylid creu o leiaf dau flwch ystlumod i'w gosod o fewn waliau allanol mewn ymgynghoriad ag ecolegydd.  Dylid gosod 3 i 5 blwch arall o gwmpas y safle (e.e., ynghlwm wrth goed).     Dylid cyfeirio at adroddiad ecoleg am argymhellion pellach.

Tomen gompost:

Dylid creu o leiaf un bin compost neu ardal tomen gompost (e.e. ffens o baletau) a chompostiwr 'bin poeth' i brosesu gwastraff bwyd mewn ardal gysgodol o'r safle.

Ardaloedd “gardd”:

Yn ogystal â'r ardaloedd cynefin uchod ar gyfer ymgysylltu â natur, dylid darparu ardal amgylchedd awyr agored ar gyfer gweithgareddau fel garddio a rheoli lles.  Dylai'r ardal hon ddraenio'n dda a wynebu’r haul, a dylai bod ganddi uwchbridd da a bod yn hawdd i beiriannau cynnal a chadw a chadeiriau olwyn/pramiau fynd ati.  Gallai'r ardd hefyd fod ar ffurf perllan fach.  Dylai rhan o ardal yr ardd gynnwys planhigion "synhwyraidd" ar gyfer lles.   Dylai'r datblygiad gynnwys o leiaf dau wely uchel i'w defnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd.

## Y STRWYTHUR PENDERFYNU

Er mwyn sicrhau bod prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen yn cyflawni'r amcanion perthnasol, mae'r cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen pwrpasol (y Bwrdd Rhaglen Buddsoddi Mewn Ysgolion) sy'n cyfarfod yn fisol ac yn goruchwylio cynnydd y rhaglen ddatblygu a'i phrosiectau amrywiol.   Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau gan Grŵp Gweithredol Buddsoddi Mewn Ysgolion.  Darperir diweddariadau rheolaidd i Gabinet y Cyngor a chyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant i sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.     Amlinellir strwythur penderfynu’r Cyngor ar gyfer prosiectau o fewn y rhaglen isod:


Cabinet
Bwrdd Rhaglen DEB
Noddwr Rhaglen DEB ac USRh
Grŵp Gweithredol Buddsoddi mewn Ysgolion
Tîm y Prosiect

## 5.5. ATODIAD 1 – ISAFSWM GOFYNION BUDD CYMUNEDOL

| Craidd / Di-graidd | Ardal darged | NT ar gyfer Cymru | Metrig | Enghraifft | Isafswm Gwerth Meincnod | Gofyniad Dilysu (archwilio) | Amserlenni Adrodd | Goblygiadau methu â chyflawni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Craidd** | Ymgeisydd newydd Swyddi wedi'u creu (NEET/ pobl hirdymor ddi-waith) | 1-4, 11, 25-26, 40, 50-54, 61, 71 | Nifer wythnosau pobl | Fel diffiniad o berson ac wythnosau | 80/£m | Hysbysiad o swydd wag a llythyr/datganiad cadarnhau gan gyflogwr | **Yn fisol** | £13.95 x 37 awr = **£516.22 yr wythnos** |
| **Craidd** | Ymgeisydd newydd Swyddi wedi'u creu (NEET/ pobl hirdymor ddi-waith) | 1-4, 11, 25-26, 40, 50-54, 61, 71 | Nifer y personau cyfwerth ag amser llawn (yn seiliedig ar ddarpariaeth 80 wythnos) | Yn ymwneud â nifer yr wythnosau ar gyfer unigolion sydd wedi'u cyflogi h.y.1 person wedi ei gyflogi am 80 wythnos. | 1/£ m | Hysbysiad o swydd wag a llythyr/datganiad cadarnhau gan gyflogwr | **Yn fisol** | |
| **Craidd** | Ymgeisydd newydd Hyfforddiant (graddedigion, lleoliad gwaith, lleoliad disgyblion ) | 7-10, 12, 40, 47-48, 57-58a, 70 | Nifer yr wythnosau pobl o hyfforddiant a ddarperir (yn cynnwys yn ystod yr wythnosau person cyffredinol) | Myfyriwr graddedig mewn peirianneg o Gymru wedi ei noddi; Myfyriwr o Gymru ar flwyddyn allan; Profiad gwaith | 30/£ m | Cadarnhad ysgrifenedig gan y darparwr dysgu/cyflogwr sy'n cymryd rhan | **Yn fisol** | £10.32 x 37 awr = £381.84 yr wythnos |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Craidd | Prentisiaid Newydd | 7-10, 12, 40, 47-48, 57-58a, 70 | Nifer y prentisiaid (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau person cyffredinol) | Yn ymwneud â nifer yr wythnosau ar gyfer unigolion sydd wedi cael eu cyflogi; Hyrwyddo cynlluniau prentisiaeth a rennir. | 1/£ m | Cadarnhad ysgrifenedig o'r prentis unigol gan y cyflogwr | Yn fisol | £6.64 x 37 awr =<br><br>£245.68 yr wythnos |
| Craidd | Digwyddiadau STEM mewn ysgolion | 6, 41, 55, 59, 73, 75, 80-82 | Nifer y rhyngweithiadau disgyblion | Cyfarfodydd ysgol neu wersi unigol. E.e. Gwasanaeth gyda 70 o blant = 70 o ymyriadau. Gwers Fathemateg gyda 30 o blant = 30 o ymyriadau. | 150/£ m | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan o weithgaredd ymgysylltu | Yn fisol | |
| Craidd | Digwyddiadau STEM mewn ysgolion | 6, 41, 55, 59, 73, 75, 80-82 | Nifer yr oriau a roddwyd | Cyfranogiad ehangach gan y tîm - cyfweliadau, ffeiriau gyrfaoedd. | 10/£ m | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan o weithgaredd ymgysylltu | Yn fisol | £48.00 yr awr |
| Di-graidd | Y gweithlu | 1-4, 11, 25-26, 40, 50-54, 61, 71 | Canran o’r gweithlu o god post | Defnyddio cod post y prosiect a mesur ymweliadau, e.e. CF | 30% o’r prosiect | Sampl o leoliad y gweithlu | Yn fisol | |
| Di-graidd | Y gweithlu | 1-4, 11, 25-26, 40, 50-54, 61, 71 | Canran o’r gweithlu o Gymru | Defnyddio cod post y prosiect a mesur ymweliadau, e.e. CF | 60% o’r prosiect | Sampl o leoliad y gweithlu | Yn fisol | |
| Di-graidd | Offeryn mesur LlC | 72 | Cwblhau offeryn mesur LlC | I’w gwblhau ar ôl cwblhau’r prosiect ac yn flynyddol os yw’r contract yn fwy na 12 mis o ran hyd. | 1 prosiect | Tystiolaeth o offeryn mesur a anfonwyd at LlC | Yn flynyddol | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 1-2, 14-15, 18, 25-26, 29-30, 50-54, 66-69, 76, 82 | Canran a wariwyd yng Nghymru | Gwerth y contract e.e. CBME contractwr trydanol, cod post Caerdydd £100,000 o werth y contract wedi'i nodi fel canran. | % o'r prosiect | Tystiolaeth o gontractau | Yn fisol | |
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 17-18, 21, 32, 37, 46, | Nifer a math o ddeunyddiau a gynhyrchwyd yng Nghymru | E.e. Dur o Gymru, llechi o Gymru | Nifer y prosiectau | Tystiolaeth o darddiad y deunyddiau | Yn chwarterol | |
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 14-15, 18, 32 | Gwerth ariannol deunyddiau | £ y dunnell (Dur), £ fesul metr sgwâr (llechi) ac ati. | £ y prosiect | Tystiolaeth o darddiad y deunyddiau | Yn chwarterol | |
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 17-18, 21, 32 | Swm y ddeunyddiau (tunelli) | Tunelledd (dur), nifer y metrau sgwâr (llechi), ac ati. | T prosiect | Tystiolaeth o darddiad y deunyddiau | Yn chwarterol | |
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 1b-1c, 3-5, 7-18, 25-26, 35-38, 42-46, 62-64, 68, 70, 72 | Canran yr is-gontractwyr o Gymru | Cyfanswm nifer y contractwyr a ddefnyddir a chanddynt god post yng Nghymru wedi'i nodi fel canran | % o'r prosiect | Taenlen monitro is-gontractwyr | Yn fisol | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 13, 17, 33-34, 38, 41, 47-48, 60, 64, 70, 72, 80 | Nifer y digwyddiadau cadwyn gyflenwi | E.e. Digwyddiad cwrdd â'r prynwyr, gweithdai gwella sgiliau tendro ar gyfer BBaChau | 2 brosiect | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan o weithgaredd ymgysylltu | Yn fisol | |
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 13, 17, 33-34, 38, 41, 47-48, 60, 64, 70 - 79 80 | Nifer yr oriau o ddigwyddiadau BBaCh, cefnogi a mentora busnesau newydd | E.e. grwpiau ffocws BBaCh, gweithdai gwella sgiliau tendro ar gyfer BBaChau | Nifer y prosiectau | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan o weithgaredd ymgysylltu | Yn fisol | |
| Di-graidd | Mentrau cadwyn gyflenwi | 14-15 | Nifer yr hysbysebion GwerthwchiGymru ar gyfer is-gontractwyr | Hysbysu am gyfleoedd i is-gontractwyr drwy GwerthwchiGymru | 3 phrosiect | Tystiolaeth o hysbyseb | Yn fisol | |
| Di-graidd | Taliad teg | 16 | Taliad o fewn 21 diwrnod gan gleient | PBA wedi'i weithredu ar gyfer pob haen | % o'r prosiect | Canran archwilio taliadau | Yn fisol | |
| Di-graidd | Taliad teg | 16 | Taliad i is-gontractwyr o fewn 28 niwrnod | PBA wedi'i weithredu ar gyfer pob haen | % o'r prosiect | Canran archwilio taliadau | Yn fisol | |
| Di-graidd | Amgylcheddol | 17-19, 21-24, 31-32, 34-35, 37, 82 | Canran y gwastraff wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi | Gwastraff wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi a defnydd amgen (e.e. adfer ynni, ailgylchu) | 85% o'r prosiect | Nodyn cyngor ar drosglwyddo gwastraff | Yn fisol | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Di-graidd | Amgylcheddol | 17-19, 21-24, 31-32, 34-35, 37, 42-46, 82 | Swm y gwastraff a gynhyrchir | Lleihau gwastraff sy’n cael ei greu | <10/£ m | Nodyn cyngor ar drosglwyddo gwastraff | Yn fisol | |
| Di-graidd | Amgylcheddol | 9, 22, 28-30, 33-34, 41, 59, 66-67, 73-78, 82 | Nifer y rhyngweithiadau yn cynyddu bioamrywiaeth ac ymwybyddiaeth | Gweithio gyda'r ysgol a'r gymuned leol i gynyddu'r fioamrywiaeth yn yr ardal leol, e.e. arolwg o'r safle, byrddau gwybodaeth | Nifer y prosiectau | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan o weithgaredd ymgysylltu | Yn fisol | |
| Craidd | Cymunedol | 28-30, 33-34, 41, 66-69, 73-78, 80-82 | Nifer y digwyddiadau cymunedol a rhoddion fesul prosiect | E.e. Rhoddion o fasgedi bwyd, uwchbridd, digwyddiad cymunedol, casglu sbwriel | Nifer y prosiectau | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan o weithgaredd ymgysylltu | Yn fisol | £1,000 y digwyddiad |
| Di-graidd | Cymunedol | 28-30, 41, 66-69, 73-78, 80-82 | Nifer y prosiectau cymunedol fesul prosiect | E.e. Gweithio gyda grŵp amgylcheddol lleol i adeiladu gardd | 1 prosiect | Cadarnhad gan y sefydliad sy'n cymryd rhan fod y prosiect wedi’i gwblhau | Yn flynyddol | |
| Craidd | Cymunedol | 76, 80-82 | Nifer y cylchlythyrau cymunedol fesul prosiect | Anfonwyd llythyr at drigolion lleol | 2 brosiect | Cadarnhad o'r llythyr a anfonwyd | Yn fisol | £500 y cylchlythyr |

| Nodau DLICD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| **Cymru Lewyrchus** | Mwy o bobl mewn gwaith | 1 | Nifer y gweithwyr uniongyrchol lleol (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir neu a gedwir (ar gyfer contractau wedi'u haildendro) ar gontract am flwyddyn neu drwy gydol y contract |
| | | 1a | Nifer y gweithwyr uniongyrchol lleol (cyfwerth ag amser llawn) sy'n drosglwyddiadau TUPE a gedwir ar gontract ar gyfer un flwyddyn neu drwy gydol y contract |
| | | 1b | Nifer y trigolion (cyfwerth ag amser llawn) o'r is-ardaloedd lleol rhestredig a gyflogir yn uniongyrchol neu drwy'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'ch gofynion caffael ar y contract am flwyddyn neu drwy gydol y contract. |
| | | 1c | Nifer y bobl leol (cyfwerth ag amser llawn) ar gontract am flwyddyn neu drwy gydol y contract; pa un bynnag sy'n fyrrach, wedi'u cyflogi drwy'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'ch gofynion caffael. |
| | | 2 | Canran y gweithwyr uniongyrchol lleol (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir neu a gedwir (ar gyfer contractau wedi'u haildendro) ar gontract am flwyddyn neu drwy gydol y contract. |
| | Gwaith teg | 3 | Lefel gyfartalog o foddhad gydag amodau gwaith gyda gweithwyr uniongyrchol a gweithwyr y gadwyn gyflenwi, a gyflogir neu a gedwir (ar gyfer contractau wedi'u haildendro) ar gontract - yn seiliedig ar arolwg boddhad gweithwyr arfer gorau a chynrychioliadol. |
| | | 4 | Mae Safon Gwaith Teg Cymru ac arferion cyflogaeth "da" a "theg" cysylltiedig yn cael eu gweithredu a'u hwyluso ar gontract. |
| | | 5 | Mae cytundebau sy'n cydnabod undebau llafur (neu gynrychiolaeth gweithwyr cyfatebol) a bargeinio cyfunol yn bresennol ac yn cael eu hannog yn y gadwyn gyflenwi. |
| | Gwell sgiliau i bobl | 6 | Nifer yr oriau staff a dreulir ar ymweliadau ysgolion a cholegau lleol e.e. cyflwyno sgyrsiau gyrfaoedd, cymorth cwricwlwm, cymorth llythrennedd, sgyrsiau diogelwch (gan gynnwys amser paratoi) e.e. ar STEM, gofal cymdeithasol a'r gwyddorau cymdeithasol |

| Nodau DLlCD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | | 7 | Nifer yr wythnosau o gyfleoedd hyfforddi ar y contract (BTEC, City & Guilds, NVQ, TGU, RQF) sydd naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu a gefnogir gan y sefydliad hyd nes y byddant wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd canlynol - Lefel 2,3, neu 4+ |
| | | 8 | Nifer yr wythnosau o brentisiaethau ar y contract sydd naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu a gefnogir gan y sefydliad hyd nes y byddant wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd canlynol - Lefel 2,3, neu 4+ |
| | | 9 | Nifer yr wythnosau o wella sgiliau staff (cyfwerth ag amser llawn) a ddarperir ar gontract fel rhan o gyfleoedd hyfforddi a rhaglenni gwella sgiliau cynhwysfawr – mae hyn ond yn berthnasol i gyfleoedd hyfforddi ar y contract (BTEC, City & Guilds, NVQ, TGU, RQF) sydd naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu a gefnogir gan y sefydliad nes y byddant wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd canlynol - Level 2,3, or 4+ |
| | | 10 | Nifer yr wythnosau o wella sgiliau staff (cyfwerth ag amser llawn) a ddarperir ar gontract fel rhan o brentisiaethau a rhaglenni gwella sgiliau cynhwysfawr - mae hyn ond yn berthnasol ar gyfer prentisiaethau ar y contract sydd naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu a gefnogir gan y sefydliad hyd nes y byddant wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd canlynol - Lefel 2,3, neu 4+ |
| | Sgiliau gwell ar gyfer trosglwyddo i garbon isel | 11 | Cefnogi 'pontio teg' i weithwyr drwy gefnogi'r rheini mewn diwydiannau carbon uchel 'traddodiadol' i ailhyfforddi. |
| | | 12 | Nifer yr wythnosau ar gontract prentisiaethau sy'n ymwneud â'r economi carbon isel - cyfleoedd naill ai i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu a gefnogir gan y sefydliad hyd nes y byddant wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd canlynol - Lefel 2,3, neu 4+ |
| | Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol a BMBaChau | 13 | Darparu cyngor busnes arbenigol i BMBaChau (e.e. cyngor ariannol / cyngor cyfreithiol / cyngor AD / Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) |
| | | 14 | Cyfanswm (£) a wariwyd yn y gadwyn gyflenwi LEOL drwy'r contract |
| | | 14a | Cyfanswm (£) a wariwyd drwy'r contract mewn is-ardaloedd lleol penodedig (e.e. ardaloedd amddifadedd uchel) |
| | | 15 | Cyfanswm y swm (£) a wariwyd drwy'r contract gydag BMBaChau mewn ardaloedd TARGED (lleol neu ardaloedd o amddifadedd) |
| | | 16 | Canran yr anfonebau ar y contract a dalwyd o fewn 30 niwrnod |

| Nodau DLlCD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol | 17 | Cefnogaeth a ddarperir yn fewnol ac i BMBaChau a sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil o fewn y gadwyn gyflenwi i fabwysiadu datrysiadau economi gylchol - achos busnes ac arweinyddiaeth ar gyfer yr economi gylchol |
| | | 18 | Gwerth partneriaethau lleol i weithredu datrysiadau economi gylchol |
| | | 19 | Gwastraff sy'n anodd ei ailgylchu yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi neu losgi drwy bartneriaethau ailgylchu penodol (e.e. Terracycle neu gyfwerth) |
| | Arloesi i gefnogi Cymru fwy llewyrchus | 20 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru Lewyrchus" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain ymwneud â chyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at sicrhau buddion wrth lleihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |
| **Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang** | Lleihau Allyriadau Carbon | 21 | Arbedion mewn allyriadau $CO_2$ ar gontract a gyflawnir trwy ddatgarboneiddio (nodwch sut y caiff rhain eu cyflawni) |
| | | 22 | Polisi a rhaglen i gyflawni carbon sero-net erbyn 2030 gan gynnwys cynllun monitro gyda cherrig milltir penodol |
| | | 23 | Cyfraniad a wnaed ar y contract i fod yn berchen ar gronfa gwrthbwyso carbon (pan ddangoswyd na ellir lleihau allyriadau carbon o fewn amserlen y contract) |
| | | 24 | Ardystiad Carbon (Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, Nod Planed neu gyfwerth wedi'i ddilysu'n annibynnol) - wedi'i gyflawni neu i'w gyflawni ar gyfer y flwyddyn gyfredol. |
| | Hyrwyddo caffael moesegol yn fyd-eang | 25 | Canran o'ch contractau sy'n cynnwys ymrwymiadau i arferion cyflogaeth moesegol yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang, gan gynnwys dilysu nad oes goddefgarwch o gaethwasiaeth fodern, llafur plant a gofynion perthnasol eraill megis dileu hunangyflogaeth ffug, contractau dim oriau annheg a chosbrestru. |
| | | 26 | Mentrau a gymerir ledled y gadwyn gyflenwi fyd-eang i nodi, monitro a rheoli'r risgiau o gaethwasiaeth fodern rhag digwydd mewn perthynas â'r contract (h.y. mapio cadwyn gyflenwi, hyfforddi staff, rheoli contractau) |
| | Arloesi i gefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | 27 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain ymwneud â chyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |

| Nodau DLlCD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gydnerth** | Gwarchod a gwella mannau gwyrdd a bioamrywiaeth | 28 | Gwirfoddoli gyda mentrau sy'n gweithio ar gadwraeth amgylcheddol a rheoli ecosystemau cynaliadwy - mae'r adnoddau a fuddsoddwyd yn cynnwys amser, arian a chyfraniadau mewn nwyddau. |
| | Diogelu'r amgylchedd | 29 | Rhoddion neu fuddsoddiadau tuag at fentrau sydd wedi'u hanelu at gadwraethau amgylcheddol a bioamrywiaeth a phrosiectau rheoli cynaliadwy ar gyfer ecosystemau morol a daearol |
| | | 30 | Rhoddion neu fuddsoddiadau tuag at fentrau ailgoedwigo neu goedwigo cynaliadwy a gynlluniwyd gan arbenigwyr. |
| | | 31 | Cyfradd ailgylchu plastig ar y contract (er enghraifft, lleihau microblastigau) |
| | | 32 | Cyfradd deunyddiau Mwy nag Ailgylchu a ddefnyddir ar gontract, fel pren, cynnwys wedi'i ailweithgynhyrchu, ei atgyweirio a'i ailgylchu. |
| | | 33 | Buddsoddi a chymorth wedi'i ddarparu i fentrau addysg amgylcheddol lleol (e.e. Llythrennedd Carbon Cymru) |
| | | 34 | Buddsoddi a chymorth wedi'i ddarparu i fentrau hyfforddi rheoli gwastraff |
| | Hyrwyddo caffael cynaliadwy | 35 | Canran o'ch contractau sy'n cynnwys ymrwymiadau cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys e.e. lleihau'r defnydd o gemegau sy'n niweidiol i'r amgylchedd, defnyddio deunyddiau neu gynnyrch lleol, lleihau gwastraff bwyd a gwastraff cyffredinol, gweithredu ymrwymiadau economi gylchol. |
| | | 36 | Canran y contractau gyda'r gadwyn gyflenwi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr weithredu cerbydau allyriadau isel neu sero. |
| | | 37 | Ardystiad Carbon Cadwyn Gyflenwi (Safon Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer Cadwyn Gyflenwi neu gyfwerth wedi'i wirio'n annibynnol) - wedi'i gyflawni neu i'w gyflawni ar gyfer y flwyddyn gyfredol. |
| | | 38 | Gofynion neu gymorth (ar gyfer mentrau micro neu fach) i gyflenwyr ddangos hyfforddiant newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon i'r holl staff - e.e. Hyfforddiant Nodau Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| | Arloesi i gefnogi Cymru Gydnerth | 39 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain e.e. fod wedi eu cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu'n anelu at sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |

| Nodau DLlCD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| **Cymru Iachach** | Creu cymuned iachach | 40 | Ymgymryd â mentrau i fynd i'r afael â digartrefedd (cefnogi cynlluniau tai dros dro, ac ati) |
| | | 41 | Ymgymryd â mentrau neu eu cefnogi i gynnwys pobl mewn ymyriadau iechyd (e.e. rhoi'r gorau i smygu, gordewdra, alcoholiaeth, cyffuriau, ac ati) neu fentrau lles yn y gymuned, gan gynnwys gweithgareddau corfforol i oedolion a phlant |
| | Lleihau llygredd aer | 42 | Milltiroedd car a arbedwyd ar y prosiect o ganlyniad i raglen trafnidiaeth werdd neu gyfwerth (e.e. rhaglenni beicio i'r gwaith, trafnidiaeth gyhoeddus neu raglenni rhannu car, ac ati) |
| | | 43 | Milltiroedd car a yrrir gan ddefnyddio cerbydau staff allyriadau isel neu sero wedi'u cynnwys ar brosiect o ganlyniad i raglen trafnidiaeth werdd |
| | | 44 | Cynlluniau teithio corfforaethol sydd ar gael i weithwyr ar y contract (trafnidiaeth gyhoeddus â chymhorthdal, cynlluniau beicio a storio â chymhorthdal, trafnidiaeth gorfforaethol gynaliadwy fel bws trydan o orsaf gyhoeddus i gyfleusterau corfforaethol) |
| | | 45 | Canran y cerbydau fflyd neu gerbydau adeiladu ar y contract sydd o safon Euro 6 neu sydd ag allyriadau isel o leiaf |
| | | 46 | Rhaglen monitro allyriadau fflyd ar y contract, gan gynnwys casglu data (milltiroedd, math o gerbyd, math o injan, safon allyriadau) |
| | Gwella lles staff | 47 | Nifer y gweithwyr ar y contract sydd wedi cael mynediad at raglenni lles cynhwysfawr ac aml-ddimensiwn am o leiaf 12 mis. |
| | | 48 | Ymgyrchoedd Iechyd Meddwl ar gyfer staff ar y contract i greu cymuned sy'n derbyn, ac yn dileu'r stigma sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. |
| | Arloesi i gefnogi Cymru iachach | 49 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru Iachach" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain ymwneud â chyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |
| **Cymru Fwy Cyfartal** | Mwy o gyfleoedd i bobl ddifreintiedig | 50 | Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir ar y contract, o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 6 mis hyd at uchafswm o 12 mis |
| | | 50a | Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir ar y contract, o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor am o leiaf 12 mis hyd at uchafswm o 24 mis |
| | | 50b | Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir ar y contract, o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor ers 24 mis neu fwy |

| Nodau DLlCD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | | 51 | "Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) o gefndiroedd difreintiedig neu leiafrifol a gyflogir ar y contract, o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 6 mis hyd at uchafswm o 12 mis<br>NODYN PWYSIG: Nodwch ddata yma ar gyfer y bobl ganlynol YN UNIG:<br>* Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME)<br>* Pobl dros 50 oed<br>* Rhieni sengl<br>* Grŵp rhywedd nad oes ganddynt gynrychiolaeth<br>* Cyn-filwyr |
| | | | * Mamau sy'n dychwelyd i'r gwaith<br>* Goroeswyr caethwasiaeth fodern<br>* Pobl ddigartref |
| | | 51a | "Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) o gefndiroedd difreintiedig neu leiafrifol a gyflogir ar y contract, o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor am o leiaf 12 mis hyd at uchafswm o 24 mis.<br>NODYN PWYSIG: Nodwch ddata yma ar gyfer y bobl ganlynol YN UNIG:<br>* Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME)<br>* Pobl dros 50 oed<br>* Rhieni sengl<br>* Grŵp rhywedd nad oes ganddynt gynrychiolaeth<br>* Cyn-filwyr<br>* Mamau sy'n dychwelyd i'r gwaith<br>* Goroeswyr caethwasiaeth fodern<br>* Pobl ddigartref |

| Nodau DLICD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | | 51b | "Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) o gefndiroedd difreintiedig neu leiafrifol a gyflogir ar y contract, o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor am 24 mis neu fwy.<br>NODYN PWYSIG: Nodwch ddata yma ar gyfer y bobl ganlynol YN UNIG:<br>* Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME)<br>* Pobl dros 50 oed<br>* Rhieni sengl<br>* Grŵp rhywedd nad oes ganddynt gynrychiolaeth<br>* Cyn-filwyr<br>* Mamau sy’n dychwelyd i'r gwaith<br>* Goroeswyr caethwasiaeth fodern<br>* Pobl ddigartref |
| | | 52 | Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir ar y contract nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu<br>hyfforddiant (NEETs) o ganlyniad i raglen recriwtio |
| | | 53 | Nifer y gweithwyr 18-24 oed (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir ar y contract sy'n droseddwyr ifanc sy’n adsefydlu<br>o ganlyniad i raglen recriwtio |
| | | 54 | Nifer y gweithwyr anabl (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir ar y contract o ganlyniad i raglen recriwtio |
| | | 55 | Nifer yr oriau o gymorth i mewn i waith a ddarperir i bobl ddi-waith drwy raglenni mentora gyrfa,<br>gan gynnwys ffug gyfweliadau, cyngor CV, a chyfarwyddyd gyrfaoedd - (dros 24 oed) |
| | Gwell cyflogadwyedd i bobl ifanc (dan 24 oed) | 56 | Nifer yr oriau a roddwyd i roi cymorth i bobl ifanc i mewn i waith (e.e. cyngor CV, ffug gyfweliadau,<br>cyfarwyddyd gyrfaoedd) - (dan 24 oed) |
| | | 57 | Nifer yr wythnosau a dreulir ar leoliadau gwaith neu gwrs cyn cyflogi ystyrlon; lleoliadau myfyrwyr<br>1-6 wythnos (di-dâl) |
| | | 57a | I bobl â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod - nifer yr wythnosau a dreuliwyd ar leoliadau<br>gwaith neu gwrs cyn cyflogi ystyrlon; lleoliadau myfyrwyr 1-6 wythnos (di-dâl) |
| | | 58 | Lleoliadau gwaith ystyrlon sy'n talu'r Isafswm Cyflog neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ôl<br>cymhwysedd - 6 wythnos neu fwy (interniaethau) |

| Nodau DLICD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | | 58a | I bobl â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod - lleoliadau gwaith ystyrlon sy'n talu'r Isafswm Cyflog neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ôl cymhwysedd - 6 wythnos neu fwy (interniaethau) |
| | Mwy o gymorth i weithgareddau targed y cwricwlwm | 59 | Amser sy'n cael ei dreulio yn cefnogi gweithgareddau cwricwlwm STEM mewn ysgolion a cholegau drwy gynnwys wedi'i ddylunio a'i gyflwyno gan arbenigwyr |
| | Lleihau anghydradd oldebau | 60 | Nifer a math o fentrau i'w rhoi ar waith i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i staff a gyflogir mewn perthynas â'r contract (disgrifio a chofnodi mentrau) |
| | | 61 | Canran y staff ar gontract sy'n cael eu talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol perthnasol fel y nodir gan Sefydliad Cyflog Byw |
| | | 62 | Canran y contractwyr yn y gadwyn gyflenwi (neu sy'n cael eu cefnogi os ydynt yn fusnes micro a bach) y mae'n ofynnol eu bod yn talu o leiaf Cyflog Byw Gwirioneddol. |
| | Hyrwyddo caffael moesegol yng Nghymru | 63 | Canran o'ch contractau sy'n cynnwys ymrwymiadau i arferion cyflogaeth moesegol, gan gynnwys dilysu nad oes goddefgarwch o gaethwasiaeth fodern a gofynion perthnasol eraill megis dileu hunangyflogaeth ffug, contractau dim oriau annheg a chosbrestru. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys enghreifftiau a gellir eu rheoli e.e. drwy Gyfrifon Banc Prosiect yn y gadwyn gyflenwi. |
| | | 64 | Mentrau a gymerwyd trwy'r gadwyn gyflenwi leol i nodi, monitro a rheoli'r risgiau o gaethwasiaeth fodern rhag digwydd (h.y. mapio'r gadwyn gyflenwi, hyfforddi staff, rheoli contractau) mewn perthynas â'r contract |
| | Arloesi ar gyfer Cymru fwy cyfartal | 65 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru fwy cyfartal" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain ymwneud â chyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynol** | Mwy o gyfleoedd i'r Trydydd Sector a Sefydliadau Cymdeithas Sifil | 66 | Offer neu adnoddau a roddwyd i sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil (£ gwerth sy'n cyfateb i arian parod) |
| | | 67 | Nifer yr oriau gwirfoddol a roddwyd i gefnogi sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil (ac eithrio cyngor busnes arbenigol) |
| | | 68 | Cyfanswm (£) a wariwyd gyda sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil o fewn eich cadwyn gyflenwi |

| Nodau DLlCD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | | 69 | Darparu cyngor busnes arbenigol i sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil (e.e. cyngor ariannol / cyngor cyfreithiol / cyngor AD/Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) |
| | Gweithlu a diwylliant sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned leol | 70 | Darperir hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer staff a staff y gadwyn gyflenwi |
| | | 71 | Canran y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (BAME) sydd wedi'u cyflogi ar y contract |
| | Gwerth cymdeithasol wedi'i ymgorffori yn y gadwyn gyflenwi | 72 | Canran y contractau gyda'r gadwyn gyflenwi y mae angen ymrwymiadau, mesur a monitro gwerth cymdeithasol arni |
| | Lleihau troseddau | 73 | Mentrau sydd â'r nod o leihau troseddau (e.e. cymorth i grwpiau ieuenctid lleol, goleuadau stryd i fannau cyhoeddus, etc.) |
| | Helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw yn annibynnol | 74 | Ymgymryd â mentrau i gefnogi pobl hŷn, pobl anabl a'r rheini sy'n agored i niwed i ddatblygu rhwydweithiau cymunedol cryfach (e.e. cynlluniau cyfeillio, clybiau cynhwysiant digidol) |
| | Cymorth ar gyfer pobl ddifreintiedig | 75 | Ymgymryd â mentrau i gefnogi pobl ifanc |
| | ddifreintiedig a'u teuluoedd. | | |
| | Mwy o weithio gyda'r gymuned | 76 | Rhoddion neu gyfraniadau mewn nwyddau i brosiectau cymunedol lleol (£ a deunyddiau) |
| | | 77 | Nifer yr oriau gwirfoddoli a ddarperir i gefnogi prosiectau cymunedol lleol |
| | | 78 | Cymorth a ddarperir i helpu'r gymuned leol i lunio eu Siarter Gymunedol neu Gynllun Rhanddeiliaid eu hunain. |

| Nodau DLICD | Canlyniad NT | Cyf NT | Mesur |
|---|---|---|---|
| | Arloesi i gefnogi cymunedau mwy cydlynol yng Nghymru | 79 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru o gymunedau cydlynus" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain ymwneud â chyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog a Rennir lle mae'r iaith Gymraeg yn Ffynnu** | Hyrwyddo diwylliant Cymru | 80 | Darperir cymorth a buddsoddiad i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg (e.e. drwy ryngweithio a gosod arwyddion) |
| | | 81 | Darperir buddsoddiad a chymorth i bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol Cymreig, y celfyddydau, gweithgareddau chwaraeon a threftadaeth |
| | Gwarchodir bywyd gwyllt brodorol, natur a safleoedd treftadaeth | 82 | Darperir buddsoddiad a chymorth i warchod bywyd gwyllt brodorol a bioamrywiaeth yn ogystal â safleoedd treftadaeth lleol |
| | Arloesi i gefnogi diwylliant mwy bywiog | 83 | Mesurau arloesol sy'n ymwneud â "Cymru â Diwylliant Bywiog a Rennir lle mae'r iaith Gymraeg yn Ffynnu" i'w cyflawni ar y contract - gallai'r rhain ymwneud â chyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati. |